



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# **Gwerthusiad o'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol – Adroddiad Terfynol**

**CCA 05/07 AY**

## Cynnwys

---

Crynodeb Gweithredol .....	3
1 Cyflwyniad a Chefnidir .....	7
2 Adolygiad o Strategaethau.....	9
3 Adolygiad o Reolaeth y Rhaglen a'i Darparu .....	11
4 Adolygiad o Fanteision y Rhaglen .....	25
5 Casgliadau ac Argymhellion .....	37
Atodiad 1: Adolygiad o Strategaethau.....	42
Atodiad 2: Dehongliad o Broses Reoli CFAP .....	53
Atodiad 3: Dadansoddiad Manwl o'r Arolwg o Fudd-ddeiliaid Prosiectau .....	54
Atodiad 4: Rhesymeg a Gweithdrefn Dewis Prosiect.....	70

## Enghreiffiau o Brosiectau

---

Tenantiaid Oldford .....	8
Neuadd y Ddraig Goch .....	8
Clwb Pysgota Llanddulas.....	10
Canolfan Ieuenctid Cefn Hengoed .....	12
Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Gwent (GAVO) .....	14
Adeilad Celf Span .....	19
Eglwys Elfed Avenue, Penarth.....	24
Neuadd Lamphey.....	24
Neuadd Gymuned Cwmafon.....	28
Eglwys Sant James.....	36
Grŵp Cymunedol Vineyard Vale.....	36

## Crynodeb Gweithredol

---

1. Lansiodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) yn Nhachwedd 2002. Mae'r rhaglen yn dilyn dull penodol o ymdrin ag anfantais gymdeithasol trwy ganolbwyntio ar anfantais ar lefel gymunedol a thrwy gydnabod bod gan y cymunedau mwyaf cyfoethog yng Nghymru, hyd yn oed, bocedi bychain o amddifadedd. Mae'r rhaglen hefyd yn cydnabod y cyfraniad y gall cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn dda ei wneud at ffabrig bywyd cymunedol.
2. Mae'r adolygiad o strategaethau yng Nghymru a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn dynodi'n glir bod adfywio cymunedau yn flaenoriaeth strategol uchel yng Nghymru. Mae cyfeiriad at yr angen i ddatblygu a chynnal "cymunedau cryfion" yn y lluo o ddogfennau strategaeth gan Lywodraeth y Cynulliad gan gynnwys *Cymru: Gwlad Well*. Fel rhaglen adfywio gymunedol, mae gan CFAP felly'r potensial i chwarae rôl bwysig yn natblygiad Cymru ac wrth gyflawni amcanion Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r galw mawr am arian CFAP hefyd yn awgrymu bod angen clir am y math o gefnogaeth y mae'r rhaglen yn ei chynnig.
3. Mae'n bwysig nodi bod y newidiadau a ragwelir yn y blaenoriaethau ar gyfer defnyddio Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru o 2007 yn debygol o leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau adfywio cymunedol yn sylweddol. Gall hyn gael oblygiadau sylweddol i CFAP, gan y gall fod yn gronfa'r cyfle olaf i brosiectau a gweithgareddau a fyddai yn y gorffennol wedi cael eu cyflwyno fel ceisiadau i raglenni a gefnogwyd gan y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol fel Amcan 1 ac Amcan 2.
4. Darganfu adolygiad o ddatblygiad prosiectau sy'n arwain at gais i CFAP bod cymunedau sydd â strwythur rhesymegol eisoes yn fwy tebygol o ddynodi'r angen am brosiect. Mae'n ymddangos yn glir hefyd bod bodolaeth grwpiau cymunedol a strwythurau cymdeithasol yn elfennau pwysig yn y broses o ddatblygu prosiect. Felly, mae'n bosibl casglu bod rhaid i gymunedau gael rhyw lefel o allu cyn y gallant gael cymorth gan CFAP.
5. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau am arian CFAP yn cael eu cyflwyno gan grwpiau cymunedol. Ond mae'r gwerthusiad wedi dynodi newid cynyddol yn y math o gyrff sy'n cyflwyno ceisiadau. Gall hyn, o bosibl, newid natur y rhaglen CFAP o fod yn un sy'n bennaf yn ymwneud â phrosiectau ar raddfa fechan i un sy'n canolbwyntio ar ddarparu arian i gyrff proffesiynol sydd wedyn yn ariannu prosiectau cymunedol.
6. Mae cynnydd yn y nifer o geisiadau a gyflwynir gan gyrff proffesiynol hefyd yn debygol o fod ag oblygiadau i allu grwpiau cymunedol i gael cefnogaeth yn uniongyrchol gan CFAP, gan ei bod yn debygol y bydd llai o arian ar gael iddynt. Mae gyrff proffesiynol yn debygol o fedru cyflwyno 'gwell'

ceisiadau i'r Cynulliad. Hynny yw, bydd gan gyrff proffesiynol fwy o brofiad o baratoi ffurflenni cais grant, ac felly yn fwy ymwybodol o'r wybodaeth sy'n ofynnol ac yn y blaen. Gall hyn olygu, mewn sefyllfa gystadleuol, bod gyrff proffesiynol yn fwy tebygol o fedru cael mynediad at arian o'r rhaglen na grŵp gwirfoddol.

7. Rheolir CFAP gyda ffocws cryf ar y 'cwsmer': cymunedau a grwpiau cymunedol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhaglen yn adlewyrchu anghenion y gymuned a grwpiau gwirfoddol ac i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei ddarparu bob amser. O ganlyniad i hyn mae'r rhaglen, ei deunyddiau gweinyddu (ffurflenni cais ac yn y blaen) a'r gwasanaeth a ddarperir gan staff y Cynulliad yn cael eu hystyried yn rhagorol gan fwyafrif llethol yr ymgeiswyr a'r buddiolwyr.
8. Mewn sefyllfa lle mae nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno gan gyrff 'proffesiynol' yn cynyddu, efallai y bydd angen newid gweithdrefnau gweinyddu'r rhaglen a'r ffurflenni cais i adlewyrchu'r math o brosiectau sy'n cael eu hariannu. Er enghraifft, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth i archwilio natur fasnachol bosibl gweithgareddau ac yn y blaen a fydd, yn anochel, yn arwain at ffurflen gais hirach a mwy cymhleth. Gall hyn gael effaith ar allu grwpiau bychain lleol i gyflwyno ceisiadau.
9. Mae'r galw am arian o'r rhaglen CFAP yn uchel iawn. Yn ôl y cronfeydd data a ddarparwyd i'r tîm ymchwil gan y Cleient, cyflwynwyd dros 1,256 o geisiadau ers i'r rhaglen ddechrau yn 2002. Os yw'r galw'n cael ei gymryd fel arwydd o'r angen, mae angen sylweddol am y cyllid a ddarperir gan CFAP. Mae dros 50% o'r prosiectau a gyflwynwyd o ddechrau'r rhaglen wedi cael eu gwrthod. Mae'r tîm gwerthuso'n deall bod hyn, yn bennaf, oherwydd diffyg arian.
10. Mae'r gwaith arfarnu a chymeradwyo ceisiadau yn tra-arglwyddiaethu ar weithgareddau tîm gweinyddol CFAP ar draul gweithgareddau eraill gan gynnwys monitro'r prosiectau a gymeradwywyd. Mae nifer y ceisiadau a dderbynnir ym mhob rownd yn gofyn am fuddsoddi cyfran sylweddol o'r adnoddau staff sydd ar gael yn nhîm gweinyddu'r rhaglen.
11. Mae'r system arfarnu a ddefnyddir wedi ei llunio o amgylch y math o brosiectau y mae'r rhaglen wedi ei dylunio i'w denu. Mae adolygiad beirniadol o'r system wedi dynodi bylchau, ond mae'r bylchau hynny yn llai o broblem oherwydd y math o brosiectau y mae CFAP yn dueddol o'u cefnogi. Bydd y mwyafrif o brosiectau yn rhai ar raddfa fechan, â chyfiawnhad clir drostynt ac yn nid ydynt yn dueddol o fod yn rhai dadleuol. Gallant gael eu hystyried, felly, yn rhai risg isel. Byddai manteision cost cyflwyno proses arfarnu a chymeradwyo hollol gadarn felly yn amheus. Ond mae'r bylchau yn y system yn dod yn amlwg pan fydd prosiectau mwy neu fwy cymhleth yn cael eu hystyried. Ni ellir cymryd risg i ystyriaeth yn ystod y broses arfarnu fel mae'n sefyll.

12. Efallai bod lle hefyd i weinyddiaeth y rhaglen ystyried y risg sy'n gysylltiedig â phrosiect wrth benderfynu ar y gweithdrefnau monitro ac adolygu a ddefnyddir. Er enghraifft, byddai prosiect mawr, cymhleth yn cael ei 'lumanu' ac yn ôl hynny yn cael ei fonitro'n fwy manwl.
13. Mae'n amlwg bod rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus yn bwysig. Ond, mae llinell denau iawn rhwng darparu adborth adeiladol i ymgeiswyr a rhoi cyngor ac arweiniad i grwpiau cymunedol ar ddatblygu prosiectau a chyflwyno ceisiadau am arian grant sydd, fe fyddai'r tîm gwerthuso'n dadlau, yn weithgaredd sy'n meithrin gallu, ac felly tu allan i gylch gorchwyl CFAP.
14. Darganfu'r gwerthusiad gylch dieflig y mae CFAP wedi ei ddal o'i fewn. Egwyddor y cylch hwn yw y bydd rhagor o geisiadau prosiect yn arwain at wrthod rhagor o brosiectau, a fydd wedyn yn creu'r angen am ragor o adborth a fydd, yn ei dro, yn arwain at gyflwyno rhagor o geisiadau ac yn y blaen. Gwaethygir y broblem hon gan y ffaith bod CFAP yn gronfa'r cyfle olaf (sy'n golygu bod ymgeiswyr yn annhebygol o chwilio am arian o ffynonellau eraill) a'r cynnydd yn y galw sy'n debygol o gael ei achosi gan newidiadau i'r blaenoriaethau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Bydd raid i brosiectau sy'n defnyddio'r Rhaglenni UE newydd bwysleisio eu cymhwyster yng nghyswllt amcanion agenda Lisbon, gan gynnwys cael ffocws clir ar fuddsoddi er budd twf economaidd a swyddi (cyflogaeth gynaliadwy). Felly, mae'r tîm gwerthuso wedi dod i'r casgliad, oni bai y bydd adnoddau ychwanegol ar gael neu fod newidiadau'n cael eu gwneud i'r system sy'n rheoli'r nifer o geisiadau a gyflwynir, y bydd system reoli CFAP yn mynd yn anghynaliadwy yn y dyfodol agos iawn.
15. Darganfu'r gwerthusiad bod y deilliannau a grëir gan CFAP yn cefnogi prosiectau sydd, yn unol ag amcanion y rhaglen, yn rhai lleol. Hynny yw, bod y rhaglen yn cael effaith sylweddol yn yr ardal sy'n lleol i bob prosiect y mae'n ei gefnogi. Felly mae'r tîm gwerthuso wedi dod i'r casgliad bod CFAP yn amlwg yn effeithiol a bod manteision y prosiectau a gefnogir yn sylweddol.

### Argymhellion

16. Dylid cymryd camau i sicrhau bod y rhaglen yn cynnal ei ffocws ar gefnogi prosiectau a arweinir gan gymunedau gan gynnwys, o bosibl, adolygiad o gymhwyster cyrff 'proffesiynol' i wneud cais am arian gan CFAP.
17. Dylai'r adnoddau a ddyrennir i CFAP gael eu hadolygu i sicrhau bod y rhaglen yn parhau i gefnogi prosiectau adfywio cymunedol yn effeithiol. Dylid ystyried cynyddu'r arian a'r lefelau staffio.
18. Os na ellir darparu cyllid a/neu staff ychwanegol, dylid ystyried cyflwyno peirianwaith i reoli faint o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r rhaglen ac i leihau'r 'baich gwaith' ar y tîm gweinyddol.

19. Dylai CFAP gadw ei ffocws ar ariannu gweithrediad prosiectau yn hytrach na chynghori cymunedau ar ddatblygu prosiectau a chyflwyno ffurflenni cais.
20. Dylid ystyried trefniadau gwahanol ar gyfer darparu adborth manwl a chefnogaeth i ymgeiswyr aflwyddiannus. Er enghraifft, gellid darparu cyngor a chyfarwyddyd trwy raglenni a chyrff meithrin gallu'r Cynulliad neu trwy gyfres o weithdai.
21. Gall peth gwaith meithrin gallu wedi ei dargedu fod yn addas i helpu'r cymunedau hynny sydd â llai o strwythur iddynt fedru defnyddio adnoddau CFAP gan gynnwys mynediad at gefnogaeth 'broffesiynol. Gall fod, eto, yn addas darparu'r gefnogaeth hon trwy raglenni a chyrff meithrin gallu'r Cynulliad.
22. Bu rhai rhanbarthau o Gymru yn fwy llwyddiannus wrth gael arian CFAP nag eraill. Dylid ystyried y potensial i gomisiynu rhagor o ymchwil i'r rhesymau pam bod rhai rhanbarthau yn fwy llwyddiannus nag eraill gyda'r bwriad o archwilio a ellid ailadrodd llwyddiant y rhanbarthau hynny mewn mannau eraill.
23. Dylid datblygu mwy o gysylltiadau gydag adrannau eraill y Cynulliad a gyda rhaglenni a chyrff adfywio cymunedol a ariennir gan y Cynulliad.
24. Dylai prosiectau sy'n cael eu dynodi fel rhai 'risg uchel' gael eu harfarnu, monitro ac adolygu yn fwy manwl gan dîm gweinyddu'r rhaglen.

## 1 Cyflwyniad a Chefndir

---

### 1.1 Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2002 lansiodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, a elwir yn CFAP. Mae'r rhaglen yn rhan o strategaeth y Llywodraeth i ymdrin ag anfantais gymdeithasol - un o dair prif thema cynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cymru: Cymru Well'.

Cynllun grant yw CFAP i helpu cyrff cymunedol a gwirfoddol i ddarparu cyfleusterau neu i gynnal gweithgareddau sy'n hyrwyddo adfywiad cymunedol. Mae'r rhaglen yn defnyddio dull penodol o ymdrin ag anfantais gymdeithasol trwy ganolbwyntio ar anfantais ar lefel cymunedol a thrwy gydnabod ei bod yn debygol bod gan y cymunedau mwyaf cyfoethog yng Nghymru, hyd yn oed, bocedi bychain o amddifadedd.

Ym Mehefin 2006 comisiynwyd Mabis (oedd yn masnachu ar y pryd fel *Menter a Busnes*), gan weithio gyda SERS, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal gwerthusiad o CFAP. Seiliwyd y gwerthusiad ar yr angen i ateb y cwestiynau canlynol:

- i. Pa mor effeithiol yw'r cynllun wrth wireddu ei amcanion polisi?
- ii. Pa mor effeithlon y mae adnoddau'r cynllun yn cael eu dyrannu?
- iii. Pa mor effeithiol y mae'r system yn cael ei rhoi yn ei lle i fonitro deilliannau prosiectau unigol?

### 1.2 Dylunio'r ymchwil a'r dull ymchwilio

Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn cynnwys:

- i. adolygiad o ddogfennau polisi a strategaeth yng Nghymru;
- ii. adolygiad o lenyddiaeth a data rheoli'r rhaglen;
- iii. cyfweiliadau gyda budd-ddeiliaid allweddol rheoli'r rhaglen;
- iv. adolygiad o raglenni tebyg i CFAP o bob rhan o'r DU;
- v. ymweld â 15 prosiect a gefnogwyd gan y rhaglen (am y rhesymeg wrth ddewis prosiectau a'r meini prawf gweler atodiad 4); ac
- vi. arolwg cynhwysfawr o'r budd-ddeiliaid o 250 o geisiadau prosiect.

Agwedd bwysig o ddylunio'r ymchwil oedd cynnal arolwg o brosiectau CFAP wedi i elfennau eraill yr ymchwil gael eu cynnal. Roedd hyn yn caniatáu i'r holiadur a'r arolwg gael eu dylunio i ganolbwyntio ar broblemau a materion o ddiddordeb a ddynodwyd yn ystod camau blaenorol yr ymarfer gwerthuso.

Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg yn 21% sy'n cael ei ystyried yn ffafriol iawn. Mae'r prif adroddiad yn tynnu ar ganfyddiadau'r arolwg mewn nifer o feysydd allweddol. Ond fe roddwyd dadansoddiad llawn o'r canlyniadau hefyd yn yr atodiad i'r prif adroddiad.



## 1.3 Strwythur yr Adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad wedi ei lunio fel a ganlyn:

*Adran 2: Adolygiad o Strategaethau*

*Adran 3: Adolygiad o Reolaeth a Chyflwyno'r Rhaglen*

*Adran 4: Adolygiad o Fanteision y Rhaglen*

*Adran 5: Casgliadau ac Argymhellion*

Mae nifer o enghreifftiau o brosiectau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad i ddarlunio'r math o brosiectau y mae'r rhaglen wedi eu cefnogi. Maent yn cael eu cynnwys mewn teip gwahanol ac mewn blychau wedi eu lliwio i wahaniaethu rhyngddynt â phrif gorff yr adroddiad fel y darlunnir isod.

### Enghraifft o Brosiect: Tenantiaid Oldford

*Nod y prosiect hwn oedd darparu maes chwarae mawr, cynaliadwy ar gyfer anghenion plant cymuned Oldford yn ei chyfanrwydd. Roedd hefyd yn cynnwys adnewyddu dau faes chwarae i blant ifanc oedd eisoes yn bodoli ar gyfer anghenion plant iau'r gymuned.*

*Roedd absenoldeb ardal chwarae yn y gymuned wedi arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhwystredigaeth, a'r bobl ifanc yn "teimlo nad oedd croeso iddynt" yn eu cymuned eu hunain. Roedd Cymdeithas Tenantiaid Oldford, gyda'r cyrff sy'n bartneriaid iddi, yn benderfynol o newid y sefyllfa hon, ac felly, cyflwynwyd cais am arian i CFAP. Yn ychwanegol at ddarparu'r cyfleusterau gwell i'r plant mae gan y prosiect y fantais ychwanegol o fod yn medru gwella'r amgylchedd ac mae wedi gwneud i'r preswylwyr hŷn deimlo'n fwy diogel trwy symud y chwarae o'r ardaloedd lle maen nhw'n teimlo eu bod yn hawdd eu niweidio .*

### Enghraifft o Brosiect: Neuadd y Ddraig Goch

*Neuadd yng nghanol cymuned Drefach Felindre yw Neuadd y Ddraig Goch. Roedd safon y toiledau a'r brif fynedfa i'r neuadd wedi dirywio'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ychwanegol, nid oedd cyfleusterau i'r anabl yn y neuadd, oedd yn cyfyngu'n sylweddol ar ei defnydd. Defnyddiwyd arian CFAP i wneud nifer o welliannau hanfodol i'r neuadd.*

*Trwy'r gwelliannau fe gynyddwyd ei defnydd posibl yn sylweddol a chynyddu'r nifer y gallai eu cynnwys o 100 i 350. O ganlyniad mae rhagor o ysgolion a chymdeithasau yn defnyddio'r neuadd yn awr i gynnal perfformiadau, cyngherddau, dramâu, pantomeimiau, Eisteddfodau ac yn y blaen. Mae'r neuadd hefyd yn gartref i nifer o weithgareddau mwy corfforol fel karate a dawnsio llinell.*

## 2 Adolygiad o Strategaethau

---

Cynhaliodd tîm y prosiect adolygiad byr o strategaethau perthnasol yng Nghymru fel rhan o'r ymarfer gwerthuso. Diben yr adolygiad oedd dangos sut y mae CFAP yn cyd-fynd â'r strategaethau hyn, ac yn bwysig, a oes gan CFAP rôl wrth ddarparu strategaethau Llywodraeth y Cynulliad. Er mwyn cadw prif gorff yr adroddiad mor gryno â phosibl, cyflwynir crynodeb o'r casgliadau llawn (gweler atodiad un) isod.

### 2.1 Blaenoriaethau Strategol yng Nghymru

Mae'r adolygiad o strategaethau yng Nghymru yn dynodi bod adfywio cymunedau yn flaenoriaeth strategol bwysig yng Nghymru. Mae cyfeiriad at ddatblygu "cymunedau cryfion" yn y lluo o ddogfennau strategol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn bwysig felly, hefyd yn nogfennau'r Comisiwn Ewropeaidd fel canllawiau rhaglen Amcan 1 a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006. Yn ddi-ddorol, nododd nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld bod CFAP yn rhaglen boblogaidd iawn ar draws y pleidiau gwleidyddol ym Mae Caerdydd.

Fel y byddwn yn trafod yn fanwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae'r galw am arian CFAP yn anhygoel o uchel. Mae'r rhaglen hefyd yn 'gronfa'r cyfle olaf'. Mae hyn yn golygu bod y prosiectau sy'n gwneud cais am arian CFAP yn annhebygol o fedru cael mynediad at arian o ffynonellau eraill. Mae hyn yn cynyddu gwerth strategol y rhaglen.

**Byddem yn dadlau bod hyn yn dangos bod y galw am y math o arian a ddarperir gan CFAP yn uchel. Felly, gallwn gasglu bod gan CFAP rôl allweddol wrth ddarparu gweledigaeth y Cynulliad am "gymunedau cryfion".**

### 2.2 Newidiadau mewn Blaenoriaeth

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer rownd 2007-13 o Raglenni'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar y gweill ers amser. Mae'r tîm gwerthuso'n deall y bydd y rhaglenni yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn yn canolbwyntio ar ymyraethau sy'n cefnogi twf cynaliadwy a swyddi yn unol â strategaethau Lisbon a Gothenberg yr Undeb Ewropeaidd.

Dyrannwyd swm sylweddol o arian i gefnogi prosiectau cymunedol yn y rhaglen Cronfeydd Strwythurol gyfredol. Mae Blaenoriaeth 3 (Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy) o'r rhaglen Amcan 1 gyfredol yn cyfrif am tua 20% o'r arian sydd ar gael dan y rhaglen gyfredol. Yn ôl gwefan WEF0<sup>1</sup>, ariannwyd 310 prosiect trwy Flaenoriaeth 3 o 11<sup>eg</sup> Rhagfyr 2006. Cyfanswm gwerth y prosiectau hyn oedd £115,556,901; cyfartaledd o £372,764 i bob prosiect.

---

<sup>1</sup> <http://www.wefo.wales.gov.uk/>

Ariannwyd nifer sylweddol o brosiectau cymunedol hefyd dan y rhaglen Amcan 2 gyfredol.

Mae *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol* y DU yn darparu fframwaith trosfwaol i'r rownd newydd o Raglenni Cronfeydd Strwythurol ac fe'i lanswyd i ymgynghori arno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 28 Chwefror 2006. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys pennod benodol ar Gymru yn nodi'r sialensiau economaidd sy'n wynebu'r wlad a sut y gall y Cronfeydd Strwythurol helpu i'w datrys.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cynrychioli symudiad sylweddol mewn blaenoriaeth ar gyfer y rownd nesaf o ariannu. Mae'n nodi y bydd "*peth dirywiad*" yn y gyfran o wariant ar gyfer y math o weithgareddau sydd ym Mlaenoriaeth 3 (Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy) gan na fydd yn cyfrannu at y targedau 'neilltuo' Lisbon. Nododd WEFO hefyd yn ystod eu cyflwyniad mewn digwyddiadau ymgynghorol ar draws Cymru yn ystod rhan olaf 2006, y bydd y rhaglen newydd yn cynnwys "*llai o fuddsoddiad mewn adfywio trefol, gwledig a chymunedol cyffredinol a champau cynhwysedd cymdeithasol nad ydynt yn canolbwyntio ar gyflogaeth*".

Gall y newid hwn mewn blaenoriaeth fod ag oblygiadau sylweddol i CFAP gan ei bod yn debygol o fod yn gronfa'r cyfle olaf i brosiectau a gweithgareddau a fyddai cyn hyn wedi cael eu cyflwyno fel ceisiadau i raglenni a gefnogir gan y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Gall hefyd arwain at gynnydd yn y nifer o geisiadau a gyflwynir i CFAP gan gyrff 'proffesiynol' sy'n cynnig rhoi gwasanaeth i'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt. Gall hyn, eto fod ag oblygiadau i CFAP (cyfeiriwch at adran 3.3.3 o'r adroddiad hwn).

Enghraifft o Brosiect: Clwb Pysgota Llanddulas

*Nod y prosiect hwn oedd datblygu'r cyfleusterau yn Llyn Nant y Cerrig. Roedd y gwaith yn cynnwys gwelliannau o ran mynediad at y llyn ac o'i amgylch, clirio gwaddod o waelod y llyn, darparu maes parcio ac adeiladu 30 o fannau pysgota. Bu'r arian a ddarparwyd gan CFAP yn fodd i'r clwb sefydlu cyfleuster sydd yn ei ariannu ei hun ac yn ei gynnal ei hun ar gyfer y preswylwyr lleol ac ymwelwyr i'r rhan honno o Ogledd Cymru.*

*Wedi sefydlu'r llyn fel un o'r prif bysgodfeydd, bwriad y clwb yw ceisio cael y defnydd mwyaf ohono trwy weithio gydag amrywiaeth o gyrff a grwpiau gan gynnwys pysgotwyr anabl, pobl ifanc difreintiedig a gyda chynllun 'Bachwch ar Bysgota' troseddwyr ifanc. Mae gan y clwb nifer o rai wedi eu henwebu i gynnal cyrsiau hyfforddi ac mae'n bwriadu cysylltu â'r holl ysgolion lleol a grwpiau ieuencid i hyrwyddo pysgota.*

## 3 Adolygiad o Reolaeth y Rhaglen a'i Darparu

---

### 3.1 Cyflwyniad

Cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'r gweithdrefnau a'r systemau sydd yn eu lle ar gyfer rheoli a darparu CFAP fel rhan o'r ymarfer gwerthuso. Diben yr adolygiad oedd asesu effeithiolrwydd y systemau sydd yn eu lle, gyda'r bwriad o ddynodi cryfderau a gwendidau ac yn y blaen.

Seiliwyd yr adolygiad ar:

- i. wybodaeth reoli a ddarperir gan dîm gweinyddu'r rhaglen;
- ii. gyfweiliadau â staff allweddol o dîm CFAP a budd-ddeiliaid eraill;
- iii. trafodaethau gyda phrosiectau a ymgeisiodd yn ystod ymweliadau â phrosiectau; a
- iv. gwybodaeth o'r arolwg o brosiectau sy'n fudd-ddeiliaid.

Cynhwysir amlinelliad o weithdrefnau rheoli'r rhaglen yn atodiad 2. Yn ei hanfod mae'r system yn cynnwys pedwar cyfnod:

*Cyfnod 1* – Datblygu prosiect

*Cyfnod 2* – Cyflwyno cais

*Cyfnod 3* – Arfarnu a chymeradwyo prosiect

*Cyfnod 4* – Monitro ac adolygu'r prosiect

Ystyir pob un o'r cyfnodau yn fanwl isod.

### 3.2 Cyfnod 1: Datblygu Prosiect

*Y cyfnod cyntaf yn y broses reoli a darparu CFAP yw datblygu prosiect gan, neu ar ran cymuned, sydd wedyn yn arwain at gyflwyno cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am arian CFAP.*

Rhaglen sy'n cael ei harwain gan y galw yw CFAP, ac yn cael ei rheoli ar sail gystadleuol. Mae'r rhaglen yn cefnogi prosiectau sydd eisoes wedi eu datblygu ac y mae cais wedi ei gyflwyno drostynt i'r Cynulliad gan, neu ar ran y gymuned. Yn allweddol, nid yw'r rhaglen wedi ei dylunio i helpu cymunedau i ddatblygu prosiectau. Nid yw'n rhaglen *meithrin gallu*.


Mae natur gystadleuol, ar sail galw'r rhaglen yn codi nifer o broblemau. Gall olygu nad yw'r rhaglen yn cael ei thargedu ar gymunedau lle mae mwyaf o'i hangen. Hynny yw, rhaid i gymunedau (neu eu cynrychiolwyr) fod â'r gallu i ddatblygu prosiect a chyflwyno cais da am arian cyn y gallant gael mynediad at arian CFAP.

Mae'n bwysig cydnabod bod CFAP yn rhan o 'becyn' o gefnogaeth sydd ar gael i gymunedau yng Nghymru, sydd â rôl benodol (neu swyddogaeth) yn y pecyn hwnnw.

Mewn geiriau syml, rhaid i'r pecyn adfywio cymunedol hwn gynnwys dwy elfen yn gweithio gyda'i gilydd:

- i. **Meithrin gallu:** y broses o gefnogi datblygiad gallu cymunedau, i ddynodi eu hanghenion ac i ddatblygu prosiectau sy'n ymdrin â'r anghenion hynny, ymhlith pethau eraill.
- ii. **Gweithredu'r prosiect:** sicrhau bod arian ar gael a'i ddarparu ar gyfer gweithredu prosiectau sy'n ymdrin â'r anghenion hynny.

Ffigur 1: Y berthynas rhwng 'meithrin gallu' a 'gweithredu prosiect'



Mae CFAP yn disgyn yn amlwg i'r ail o'r elfennau hyn, sicrhau bod arian ar gael i weithredu prosiectau. Dyluniwyd rhaglenni a chynlluniau gweithredol eraill i ddarparu cefnogaeth ar gyfer meithrin gallu cymunedau. Maent yn cynnwys Cymunedau'n Gyntaf, Gweithredu dros Gymunedau Gwledig a'r gefnogaeth sydd ar gael ar draws Cymru trwy Gynghorau Gweithredu Gwirfoddol (CGGC).

Wedi cydnabod rôl CFAP mewn adfywio cymunedol, mae tuedd y rhaglen i gael ei harwain gan y galw yn mynd yn llai o broblem. Ond, mae hyn yn cymryd bod yr elfennau meithrin gallu, pan fydd eu hangen (mae rhai cymunedau wedi datblygu'r gallu angenrheidiol eu hunain ac nid oes arnynt angen ymyrraeth o'r tu allan), yn cael eu darparu gan elfennau eraill yn y pecyn. Nid oedd adolygu rhaglenni a gweithgareddau meithrin gallu yn rhan o'r prosiect hwn ond efallai y dylid ymchwilio ymhellach i'r mater.

Enghraifft o Brosiect: Canolfan Ieuencid Cefn Hengoed

Mae Canolfan Ieuencid Cefn Hengoed yn gwasanaethu dwy ardal sef Hengoed a Chefn Hengoed. Mae yno gegin syml ond modern ac ardal fwyta, gardd ac amrywiol ardaloedd gweithgareddau. Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan gorff gwirfoddol ac mae'n cynnig cyfleuster tu allan i oriau ysgol i blant lleol a phobl ifanc 8-18 oed. Eu nod yw gwella lles yr holl bobl ifanc yn yr ardal trwy ddarparu cyfleusterau sy'n datblygu gallu corfforol, meddyliol a chymdeithasol fel eu bod yn medru cymryd rôl gyfrifol yn eu cymuned.

Defnyddiwyd y grant CFAP i ddarparu offer sglefr fyrddio deniadol, cyfeillgar i blant a safonol sy'n ysgogi pobl ifanc y gymuned i wella cyfathrebu ac ymddygiad cymdeithasol da.

*Arweinir Canolfan Ieuencid Cefn Hengoed gan aelod o'r gymuned, sydd yn ei geiriau ei hun, "yn teimlo perchenogaeth" o'r prosiect. Mae cysyniad y prosiect wedi deillio o ddau gyfeiriad. Yn gyntaf, cwynion gan breswylwyr lleol am bobl ifanc yn sglefr fyrddio ar y stryd ac yn ail ymarfer ymgynghori gyda phlant lleol.*

Er mwyn archwilio datblygiad prosiectau CFAP ymhellach, fel rhan o'r arolwg o'r budd-ddeiliaid, gofynnwyd i ddefnyddwyr y cyfleusterau a gefnogir gan CFAP sut yr oeddent wedi dynodi'r angen yr oedd eu prosiect yn ymdrin ag o . O ran yr amcan o gefnogi cymunedau mae'r canlyniadau'n galonogol. Trafod yr angen am gyfleusterau newydd/gwell yw dechreuad mwyaf cyffredin prosiectau, yn cael ei ddilyn gan rannu gwybodaeth ar dafod leferydd trwy ffrindiau a theulu. Ond mae'n werth nodi y gall fod awgrym o ganlyniadau'r arolwg bod cymunedau sydd â strwythur cydlyn yn fwy tebygol o ddynodi'r angen am brosiect. Mae bodolaeth grwpiau cymunedol a strwythurau cymdeithasol yn amlwg yn elfennau pwysig yn y broses o ddatblygu prosiect. Mae hyn yn cefnogi'r casgliad bod ar gymunedau angen lefel benodol o allu cyn y gallant gael mynediad at gefnogaeth gan CFAP.

### 3.3 Cyfnod 2 – Cyflwyno Cais

*Ail gyfnod y broses yw datblygu a chyflwyno cais am gefnogaeth i dîm rheoli a gweinyddu CFAP y Cynulliad.*

#### 3.3.1 Pwyslais ar anghenion y cwsmer

Bydd cynrychiolwyr cymunedol a rheolwyr rhaglenni, gan gynnwys rhai a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn, yn aml yn nodi bod natur gymhleth y broses ymgeisio yn rhwystr o ran gallu grŵp gwirfoddol i gael mynediad at gefnogaeth o'r sector cyhoeddus. O ystyried y pryderon hynny, mae tîm CFAP wedi gwneud ymdrech fwriadol i gadw'r broses o ymgeisio am arian CFAP mor syml â phosibl. Mae'r tîm wedi cydnabod bod y rhai sy'n cyflwyno cais (eu cwsmeriaid) yn wirfoddolwyr yn gyffredinol. Mae'r ffurflen gais ei hun, felly, yn fyr a syml o'i chymharu â ffurflenni cais eraill fel ffurflen gais Amcan 1 WEFO sy'n rhedeg dros 16 tudalen.

**Er y byddem yn derbyn a chefnogi'r rhesymeg dros ddefnyddio'r dull hwn, mae i sylw'rwydd y broses ymgeisio oblygiadau i'r broses arfarnu prosiectau, a drafodir yn fanylach yn adran 3.4 o'r adroddiad hwn.**

Dynododd y tîm gwerthuso ddau grŵp pendant sy'n ymwneud â phroses ymgeisio CFAP: aelodau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu talu (aelodau o bwllgorau a phobl eraill *nad ydynt yn broffesiynol*); a gweithwyr proffesiynol (unigolion sy'n cael eu talu i gefnogi'r broses ymgeisio). Archwiliwyd barn y ddau grŵp am y broses ymgeisio yn ystod y gwaith ymchwil ac yn benodol yn yr arolwg o fudd-ddeiliaid sydd â phrosiect.

Mae'n ymddangos yn glir bod dyluniad y broses ymgeisio wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran ymdrin ag anghenion y rhai nad ydynt yn broffesiynol.



Roedd 68% o'r ymatebwyr nad oedd yn broffesiynol yn anghytuno â'r datganiad "nid oedd y cwestiynau ar y ffurflen gais yn rhoi cyfle i ni esbonio manteision ein prosiect yn llawn". Dim ond yr ymateb i "peth anhawster, fe gymerodd fwy nag un ymgais" sy'n dangos rhywfaint o ddiffyg unfrydedd.

Yn ddi-ddorol, roedd bron i 30% o'r prosiectau, fodd bynnag, wedi gorfod gwneud mwy nag un cais cyn dod yn llwyddiannus. Mae hyn yn awgrymu, er bod y broses yn syml, nad yw'n rhywbeth y gall cymunedau ei wneud yn llwyddiannus ar yr ymgais gyntaf. Unwaith eto, mae hyn yn cefnogi'r casgliad y bydd raid i ymgeiswyr gael rhyw lefel o allu (hynny yw, gallu i wneud cais) cyn y gallant gael mynediad at arian CFAP.

### 3.3.2 Rôl gweithwyr proffesiynol

Rydym wedi gweld bod gan weithwyr proffesiynol ddwy rôl yn CFAP. Maent yn darparu cefnogaeth i ymgeiswyr o gymunedau trwy ddarparu sgiliau a gwasanaethau, ac yn gynyddol, fel ymgeiswyr eu hunain. Trafodir un corff o'r fath yn un o'r enghreifftiau o brosiectau yn yr adroddiad hwn. Gall y cyrff yma fod yn gweithio ar ran y gymuned neu'n gweithredu fel darparwr arian i brosiectau bach (gweler adran 3.3.3). Maent yn cynnwys cwmnïau preifat cyfyngedig trwy warant ac maent, mewn nifer o achosion, yn cael mynediad at arian o wahanol ffynonellau.

Mae'n ddi-ddorol nodi, bod llai na 15% o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg wedi cymryd rhan yn y gwaith o ysgrifennu'r cais. Mae hyn yn awgrymu bod gan y gymuned rôl gref yn y broses. Roedd y gwasanaethau proffesiynol i raddau helaeth yn cwmpasu cyngor ar faterion technegol (26.5%), tystiolaeth i gefnogi (23.5%) ac ar faterion ariannol (17.6%). Ychydig o brosiectau sydd wedi gofyn am gyngor cyfreithiol (2.9%).

Mae gwahaniaeth clir rhwng y gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i ffabrig y prosiectau (adeiladwyr er enghraifft sydd mewn gwirionedd yn gostau 'cyfalaf') a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i'r gwaith ymgeisio a gweinyddu ar y prosiect. Mae'n ymddangos bod y rhai cyntaf yn rhoi cyngor technegol, a'r lleill yn rheoli'r cais. Mae'n amlwg bod materion o ran cost a chystadleuaeth y gellir bod yn rhaid eu hystyried i gadw ethos cymunedol y rhaglen.

#### Enghraifft o Brosiect: Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Gwent (GAVO)

Mae'r prosiect £300k hwn yn ariannu gweithrediad cynllun grantiau bach o hyd at £20k i bob ymgeisydd i gefnogi unrhyw gorff cymunedol a gwirfoddol cymwys wrth adfywio cymunedau ledled Sir Caerffili. Mae'r cynllun yn medru ariannu cyfleusterau a gweithgareddau sy'n ymdrin â thri phrif edefyn adfywio – cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd – er mwyn cynyddu'r cyfleoedd o greu newid parhaol. Mae cyrff sy'n ymdrin â phob un o'r elfennau hyn yn medru cael budd o'r cynllun.

Yn y math hwn o brosiect, mae corff mawr (GAVO yn yr achos hwn) yn dwyn 'cost' paratol cais am arian CFAP yn hytrach na'r grwpiau cymunedol eu hunain. Nid oes gan y Cynulliad unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r gymuned.

### 3.3.3 Y newid mewn ymgeiswyr

Fel y nodwyd eisoes mae mwyafrif ceisiadau CFAP yn cael eu cyflwyno gan grwpiau o'r sector gwirfoddol (neu gymunedol) ac fe ddyluniwyd y rhaglen i ymdrin â'r math hwnnw o brosiect. Ond, mae cyrff proffesiynol, fel cymdeithasau sector gwirfoddol, yn gynyddol yn cyflwyno ceisiadau am gefnogaeth ar ran y cymunedau y maent yn eu cynrychioli a'u cefnogi.

Gall y ceisiadau yma fod yn arwyddocaol o ran eu gwerth a gallant gynnwys arian i ddarparu cyfleusterau ychwanegol (fel swyddfeydd) ar gyfer y corff dan sylw. Mae'r gostyngiadau a ragwelid yn yr arian fydd ar gael o ffynonellau eraill (cyfeirier at adran 2 o'r adroddiad hwn) yn debygol o arwain at gynydd yn y galw, ac felly yn y gystadleuaeth am adnoddau CFAP. Mae gostyngiadau mewn ffynonellau ariannu eraill hefyd yn debygol o olygu cynnydd yn y galw am arian CFAP gan gyrff proffesiynol sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad at arian o raglenni fel Amcan 1<sup>2</sup>.

Os bydd CFAP yn parhau i gael ei reoli ar sail gystadleuol, gall hyn olygu bod llai o arian ar gael i grwpiau cymunedol sydd (oni bai bod cyfyngiadau'n cael eu cyflwyno) yn annhebygol o fedru cystadlu yn erbyn cyrff proffesiynol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyrff proffesiynol yn medru cyflwyno ceisiadau 'gwell' am arian gan y Cynulliad. Hynny yw, bydd gan gyrff proffesiynol fwy o brofiad o baratoi ffurflenni cais am grant ac felly byddant yn fwy ymwybodol o'r wybodaeth sy'n ofynnol, sut y dylid ei chyflwyno ac yn y blaen. Mewn sefyllfa gystadleuol, felly, mae cyrff proffesiynol yn fwy tebygol o fedru cael mynediad at arian o raglenni, fel CFAP, na grŵp gwirfoddol neu gymunedol.

**Oni bai bod cyfyngiadau'n cael eu cyflwyno, gall y symudiad hwn tuag at geisiadau proffesiynol newid natur y rhaglen CFAP o un sy'n bennaf yn ymwneud â phrosiectau cymunedol ar raddfa fechan i un sy'n canolbwyntio ar ddarparu arian i gyrff proffesiynol, sydd wedyn yn ariannu prosiectau cymunedol.**

Dylid nodi nad yw symudiad tuag at ragor o geisiadau gan gyrff proffesiynol/cyfyngol o anghenraid yn beth drwg os oes peirianwaith yn ei le i reoli'r math o brosiect a gyflwynir a'r swm o arian y mae'r cyfryngwr yn medru ei 'dafellu i ffwrdd' ar gyfer rheoli. Gall rheoli'r modd y cyflwynir CFAP trwy gyfryngwyr proffesiynol ddwyn nifer o fanteision gan gynnwys lleihau'r nifer o geisiadau a gyflwynir i LICC, a allai leihau'r baich gwaith i dîm gweinyddu'r rhaglen ac yn y blaen. Ond, fel y trafodwyd o'r blaen, gallai hefyd newid natur y rhaglen yn sylweddol trwy leihau gallu grwpiau cymunedol i gael mynediad at gefnogaeth yn uniongyrchol gan CFAP.

## 3.4 Cyfnod 3 – Arfarnu a Chymeradwyo Prosiect

*Trydydd cyfnod proses reoli a darparu'r rhaglen yw arfarnu a chymeradwyo ceisiadau CFAP gan dîm gweinyddu'r rhaglen.*

---

<sup>2</sup> Gellir gweld manylion y cyrff sydd wedi cael arian trwy Amcan 1 a Chronfeydd Strwythurol eraill ar wefan WEFO ([www.wefo.wales.gov.uk](http://www.wefo.wales.gov.uk)).



### 3.4.1 Y weithdrefn

Ein dealltwriaeth ni o'r system arfarnu prosiect sydd ar waith yn CFAP yw:

- i. Ceisiadau prosiect yn cael eu cyflwyno trwy ddwy/dair rownd y flwyddyn.
- ii. Yr holl geisiadau'n cael eu harfarnu'n annibynnol a'u sgorio gan o leiaf ddau swyddog o'r tîm gweinyddol ac yna eu trafod mewn cyfarfod o'r tîm arfarnu cyfan gyda'r sgoriau arfarnu wedyn yn cael eu 'cadarnhau'.
- iii. Ceisiadau'n cael eu rhannu i gydweithwyr yn yr Adran fel sy'n briodol i gael sylwadau yn ystod y broses uchod.
- iv. Yr arian sydd ar gael yn cael ei ddyrannu i brosiectau yn ôl eu sgôr nes bod yr holl arian sydd ar gael wedi ei ddyrannu (hynny yw, arian yn cael ei ddyrannu i'r prosiectau gyda'r sgôr uchaf nes bydd y cyfan wedi ei ddyrannu).
- v. Cyflwynir yr argymhellion i'r Gweinidog sy'n gyfrifol iddo/iddi eu cymeradwyo.
- vi. Llythyrau cymeradwyo/gwrthod prosiectau'n cael eu dosbarthu i'r ymgeiswyr.
- vii. Adborth yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr aflwyddiannus, a all wedyn ail gyflwyno eu ceisiadau mewn rowndiau yn y dyfodol.

Y targed yw cwblhau'r broses uchod cyn pen wyth wythnos neu 40 o ddyddiau gwaith.

### 3.4.2 Galw - y nifer o geisiadau a dderbynnir

Mae'r gwaith arfarnu a chymeradwyo ceisiadau yn tra- arglwyddiaethu dros weithgareddau tîm gweinyddu CFAP. Mae'r nifer fawr o geisiadau a dderbynnir ym mhob rownd yn gofyn am fuddsoddi cyfran sylweddol o'r adnoddau staff sydd ar gael yn nhîm gweinyddu'r prosiect.

Mae'r galw am arian o'r rhaglen CFAP yn anhygoel o uchel. Yn ôl y gronfa ddata a ddarperir i'r tîm ymchwil, cyflwynwyd dros 1,256 o geisiadau gan brosiectau ers i'r rhaglen gychwyn yn 2002. Os yw galw yn arwydd o'r angen, mae angen sylweddol am yr arian a ddarperir gan CFAP.

**Mae'n bwysig nodi ei bod yn ymddangos yn glir na all lefel y galw sy'n bodoli am gefnogaeth gael ei fodloni gan CFAP. Byddai'n ymddangos yn glir hefyd, oherwydd y cynnydd a ragwelir yn y galw am arian CFAP, na fydd strwythur ariannu CFAP presennol yn medru diwallu'r galw tebygol yn y dyfodol am arian.**

Mae mwy na 50% o'r prosiectau a gyflwynwyd ers cychwyn y rhaglen wedi cael eu gwrthod. Awgrymodd trafodaethau gyda swyddogion y Cynulliad bod nifer sylweddol o'r prosiectau yn cael eu gwrthod ar y sail nad oes digon o arian ar gael ac nid oherwydd nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysedd y rhaglen. Rhaid ystyried hyn wrth ystyried datblygiad y rhaglen yn y dyfodol yn arbennig pan fyddwn yn ystyried bod y galw am arian yn debygol o gynyddu.

Trwy gadw'r broses ymgeisio mor syml â phosibl (am y rhesymau a drafodwyd yn adran 3.3 o'r adroddiad hwn) mae'r math o brosiect sy'n gymwys am arian, cyn belled a'i fod yn cefnogi'r gymuned leol, bron yn ddi-ben-draw. Trwy gadw meini prawf y rhaglen cyn lleied â phosibl, a thrwy hynny'n syml, ychydig iawn o weithgareddau sy'n cael eu hystyried yn anghymwys am gefnogaeth. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iawn rheoli'r nifer o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno ac felly angen eu harfarnu.

#### 3.4.3 Gwybodaeth ar y ffurflen gais

Un o'r prif faterion a ddynodwyd yn ystod y gwerthusiad yw bod ansawdd y cais a gyflwynir yn sylfaenol i'r broses arfarnu a chymeradwyo. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn nodwedd sy'n unigryw i CFAP gan ei bod yn nodwedd o'r mwyafrif o gynlluniau grant cystadleuol. Ond mae yn fater sy'n gofyn am ragor o drafodaeth gan ei fod yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r rhaglen yn cael ei rheoli a'r manteision y mae'n eu creu.

Mae'r broses arfarnu a ddefnyddir, i raddau helaeth, yn ddibynnol ar yr wybodaeth a welir ar y ffurflen gais. Bydd tîm gweinyddu'r rhaglen, yn achlysurol, yn gofyn am wybodaeth ychwanegol i gefnogi eu harfarniad; roedd ymchwil ar y rhyngwyd yn enghraifft a roddwyd yn ystod trafodaethau gyda'r tîm gweinyddu. Ond mae cymeradwyo neu wrthod y cais yn dibynnu yn bennaf ar yr wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd ar y ffurflen gais. Mae nifer o oblygiadau i hyn.

Mae'n ymddangos yn glir bod prosiectau'n cael eu datblygu a'u cyflwyno i CFAP am arian ar sail yr angen yn y gymuned dan sylw. Ond ychydig o le sydd yn y system arfarnu a chymeradwyo i 'wirio' bod yr wybodaeth a roddir gan yr ymgeisydd yn gywir. Gellid ystyried felly, bod y system yn agored i orliwio anghenion. Mae nifer o gyrff mewn bodolaeth y gellid gwirio ceisiadau gyda nhw, ac felly gellid lleihau'r graddau y mae'r system yn agored i hyn. Maent yn cynnwys awdurdodau lleol, asiantaethau datblygu rhanbarthol a chymdeithasau sector gwirfoddol. Mae Adrannau Llywodraeth y Cynulliad hefyd a/neu gyrff a ariennir y gellid gofyn am eu barn yn fanylach nag ar hyn o bryd, fel Cymunedau'n Gyntaf a/neu dimau Gweithredu Cymunedau Gwledig. Dylid ystyried sut y gellir defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael gan yr adrannau a chyrrff hyn fel rhan o'r broses arfarnu.

#### 3.4.4 Bylchau yn y system arfarnu

Mae'r tîm gwerthuso wedi dynodi nifer o fylchau posibl ym mhroses arfarnu CFAP gan gynnwys:

- i. Ystyriaeth annibynnol gyfyngedig, os o gwbl, o werth ychwanegol; sut y bydd pob prosiect yn ychwanegu gwerth at y cyfleusterau neu wasanaethau sydd eisoes ar gael i'r gymuned honno.
- ii. Ystyriaeth ffurfiol gyfyngedig, os o gwbl, o'r potensial am ddadleoliad (a fydd y prosiect dan sylw yn cael effaith niweidiol ar unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau eraill mewn cymunedau lleol eraill).

- iii. Ystyriaeth annibynnol gyfyngedig ar sut y bydd y prosiect arfaethedig yn ffitio gyda strategaethau lleol sydd yn eu lle i adfywio'r rhanbarth neu'r gymuned dan sylw.
- iv. Diffyg trothwy ansawdd yn y system arfarnu. Yn ddamcaniaethol gall yr un prosiect gael ei wrthod mewn un rownd a'i gymeradwyo yn yr un nesaf heb wneud unrhyw newidiadau oherwydd bod y sgôr gymeradwyo yn amrywio . Gellid ystyried hyn fel rheoli ansawdd cyfyngedig yn y system arfarnu.
- v. Mae'n anodd iawn cymharu prosiectau yn ystod y broses arfarnu. Mae hyn yn golygu y gall fod yn anodd asesu a yw un prosiect yn well nag un arall pan fyddant yn gweithio gyda chymunedau gwahanol iawn a/neu pan fyddant yn cynnig gweithgareddau hollol wahanol.

Y prif reswm am nifer o'r bylchau a amlinellir uchod yw'r system ymgeisio sydd wedi ei dylunio i fod mor syml â lliflin â phosibl i adlewyrchu'r ffaith bod y mwyafrif o'r ceisiadau'n cael eu cyflwyno gan grwpiau gwirfoddol. Mae'r ffurflen gais yn fyr ac nid yw, felly, yn cynnwys nifer o gwestiynau a fyddai'n darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ystyried rhai o'r materion a ddynodir uchod.

Cyn i ni dderbyn yr uchod fel beirniadaeth ar y system arfarnu a chymeradwyo, mae'n bwysig ystyried yr uchod yng nghyd-destun nodau ac amcanion CFAP.

**Mae'r system arfarnu a ddefnyddir ar gyfer ceisiadau CFAP wedi ei hadeiladu'n glir o amgylch y math o brosiectau y mae'r rhaglen wedi ei dylunio i'w denu. Hynny yw, gall adolygiad beirniadol o'r system arfarnu ddynodi bylchau. Ond mae'r bylchau hynny yn llai o broblem oherwydd y math o brosiectau y mae CFAP yn dueddol o'u cefnogi. Bydd y mwyafrif o brosiectau yn dueddol o fod ar raddfa fechan, â chyfiawnhad clir drostynt, ac ni fyddant yn dueddol o fod yn ddadleuol. Felly, gellir eu hystyried yn rhai 'risg isel'. Byddai manteision cost cyflwyno proses arfarnu a chymeradwyo hollol gadarn felly yn amheus.**

Mae'n bwysig ystyried hefyd yr effaith y byddai system arfarnu fwy caeth, debyg i WEFO, yn ei chael ar y rhaglen gyfan. Byddai arfarniad mwy cadarn yn gofyn am ffurflen gais fwy cymhleth a meithach. Byddai hyn mae'n debyg yn cael nifer o effeithiau gan gynnwys gwneud y rhaglen yn llai hygyrch i gymunedau a grwpiau gwirfoddol nad oes ganddynt y gallu (sydd wedi ei ddatblygu o brofiad blaenorol o gyflwyno ceisiadau am arian er enghraifft) neu'r amser i lenwi ffurflen gais faith.

Ond mae'r bylchau yn y system a ddynodwyd, yn dod i'r golwg pan fydd prosiectau mwy neu fwy cymhleth yn cael eu hystyried. Nid oes 'trefniadau arbennig' yn eu lle i ymdrin â phrosiectau tu allan i ffiniau cyffredin y rhaglen. Caiff pob prosiect ei drin yr un ffordd. Mae hyn yn ddealladwy gan fod CFAP yn rhaglen gystadleuol. Mae prosiectau'n cystadlu gyda'i gilydd am swm cyfyngedig o arian, ac felly, rhaid iddynt gael eu harfarnu mewn modd cyson.

Ond mae'n golygu na ellir ystyried risg yn ystod y broses werthuso. Er enghraifft mae prosiect £300k (ariannu cynllun grant dirprwyedig a fyddai'n cael ei ystyried yn un risg uchel oherwydd, ymhlith materion eraill, lefel yr ariannu dan sylw) yn cael ei arfarnu yn yr un ffordd a phrosiect £6k i adnewyddu neuadd bentref, a all fod yn angenrheidiol i gadw'r adnodd ar gael (hynny yw, mae'r angen yn glir a'r risg, felly, yn fach). Mae'n ymddangos bod angen dull mwy cytbwys.

Enghraifft o Brosiect: Adeilad Span Arts

*Grŵp celf cymunedol yw Span Arts yn Arberth. Sefydlwyd y grŵp ym 1998 a'i amcan yw gwasanaethu ystod eang o bobl yn Sir Benfro gyda cherddoriaeth fyw flaengar a chyffrous a gweithgareddau celf creadigol. Maent yn darparu dewis amrywiol o weithgareddau celf cymunedol yn amrywio o music, dance a pherfformiadau celf i workshops mewn ysgolion a sesiynau hyfforddi ac yn gweithio gyda phob agwedd o'r gymuned gan gynnwys plant ac oedolion ifanc, cartrefi gofal a phobl anabl o bob math.*

*Nod Adeilad Span Arts a gefnogwyd gan grant CFAP yw gwasanaethu ystod eang o bobl yn Sir Benfro gyda gweithgareddau celf blaengar. Mae'n darparu gweithgareddau yn amrywio o gerddoriaeth, dawnys a pherfformiadau celf i weithdai a sesiynau hyfforddi. Defnyddir yr adeilad hefyd i gyrraedd at grwpiau o bobl nad oes ganddynt fynediad rhwydd at y celfyddydau.*

*Rhoddodd grant CFAP gyfle i Span Arts brynu'r adeilad oedd yn rhoi sylfaen gadarn i'r gymdeithas yng nghanol y gymuned ac yn galluogi'r gymdeithas i ddarparu prosiectau blaengar a chyffrous a digwyddiadau yn effeithlon, oherwydd ei leoliad unigryw i leoliadau amlwg, cymdeithasau celf a busnesau. Trwy sicrhau'r adeilad cynyddodd y sylw i Span Arts hefyd ac mae wedi medru symud ymlaen gyda'i phartneriaid i ddarparu celf yn Sir Benfro.*

### 3.4.5 Dibyniaeth ar y tîm gweinyddu

Mae gan dîm gweinyddu'r rhaglen rôl allweddol wrth reoli a darparu'r rhaglen CFAP fel y mae ganddynt yn y gwaith o ddarparu unrhyw raglen. Ond, yn achos CFAP gall dibyniaeth y system arfarnu ar yr unigolion hynny yn y tîm beri pryder. Mae'n hawdd i unrhyw system sy'n ddibynnol ar aelodau o dîm ddiodef os bydd yr aelodau'n newid. Daeth y tîm gwerthuso i'r casgliad bod CFAP mewn sefyllfa o'r fath.

Llwyddodd y tîm gweinyddu i ymdrin â nifer o newidiadau mewn personél hyd yn hyn trwy system hyfforddi 'yn y gwaith' effeithiol iawn, lle mae'r swyddog sy'n gadael yn cymryd cyfrifoldeb am hyfforddi'r aelod newydd o'r tîm. Gall system o'r fath barhau i fod yn effeithiol. Ond mae yn agored, a gall gael trafferth i ymdopi â nifer o newidiadau. Felly, gallai fod yn ddoeth ystyried llunio diogelwch ychwanegol yn y system. Er enghraifft, gall fod yn addas ystyried cyflwyno gweithdrefnau ysgrifenedig mwy manwl.

### 3.4.6 Pwysau ar y tîm gweinyddol

Mae cyfanswm y ceisiadau a dderbynnir yng nghyswllt maint tîm gweinyddu'r rhaglen yn sylweddol. Ein dealltwriaeth ni yw bod oddeutu 200 o geisiadau wedi eu derbyn yn ystod y rownd ddiweddaraf o geisiadau. Mae gan y tîm 8 wythnos (neu 40 diwrnod gwaith) i gwblhau'r broses arfarnu ar gyfer y prosiectau hyn. Mae'r broses honno yn cynnwys arfarnu pob prosiect gan

ddau aelod o staff, ymgynghori gyda chydweithwyr adrannol, cyfarfod i adolygu a chymharu'r prosiectau a cheisio cymeradwyaeth y Gweinidog i'r penderfyniadau a wnaed.

**Gan ddiystyru'r amser sy'n angenrheidiol i ymgynghori â chydweithwyr ac i geisio cymeradwyaeth y Gweinidog, mae'r tîm gweinyddu (sy'n cynnwys pum swyddog yn ystod cyfnod arfarnu prosiectau) yn gorfod cyflawni dau arfarniad prosiect y dydd i gyrraedd y dyddiad cau. Byddai pwysau gwaith o'r fath yn amlwg yn rhoi pwysau ar unrhyw dîm gweinyddu prosiect.**

Mae'n bwysig nodi hefyd mai dim ond elfen o rôl y tîm gweinyddu rhaglen yw arfarnu ceisiadau prosiectau. Mae'r uchod, felly, yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o'r baich gwaith sydd ar y tîm.

#### 3.4.7 Adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus

Mae cyfran sylweddol o amser tîm gweinyddu CFAP yn cael ei dreulio ar ddarparu adborth i'r unigolion a'r sefydliadau sydd wedi cyflwyno ceisiadau aflwyddiannus am gefnogaeth.

Yn ystod cyfweiliadau, nododd nifer o'r budd-ddeiliaid rheoli rhaglenni bod yr adborth a roddir i ymgeiswyr ar ddiwedd y broses arfarnu prosiectau yn un o gryfderau'r rhaglen. Cefnogir y sylwadau hynny gan yr wybodaeth a gasglwyd gan ymgeiswyr sy'n barnu bod y gwasanaeth a ddarperir gan y tîm o safon uchel iawn. Mae'r nifer o geisiadau sy'n cael eu hail-gyflwyno (a'u cymeradwyo wedyn) hefyd yn arwydd o ansawdd yr adborth a'r cyngor y mae'r tîm yn ei roi. Fodd bynnag, y mae'n bwysig cydnabod bod y 'gwasanaeth' hwn yn un sy'n costio.

Nododd nifer o dîm gweinyddu'r rhaglen eu bod fel arfer yn treulio hyd at awr yn darparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus (gan gynnwys amser ar y ffôn, paratoi nodiadau ac yn y blaen). Byddai hyn yn cynnwys amser a dreulir yn trafod cryfderau a gwendidau'r cais a hefyd yn cynnig cyngor ar sut y gellid gwella'r cais cyn iddo gael ei ail gyflwyno fel rhan o'r rownd nesaf o geisiadau.

**O gymryd bod hyn yn amcangyfrif cywir – y mae'r tîm gwerthuso yn credu ei fod o ystyried i nifer o'r rhai a gyfwelwyd roi'r un amcangyfrif – ac o ddefnyddio'r nifer o geisiadau a wrthodwyd yn ystod y rownd ddiwethaf o gyflwyniadau (140), gallwn amcangyfrif bod y tîm yn treulio 140 awr neu 18.7 diwrnod i bob rownd yn rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus. O gymryd bod tair rownd o geisiadau bob blwyddyn, gallai hyn olygu 420 awr, 56 diwrnod neu 11.2 wythnos y flwyddyn.**

Y cwestiwn sy'n rhaid ei ystyried yw a yw hyn yn ddefnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n ymddangos bod ansawdd y cyngor a ddarperir a manteision y cyngor yn amlwg o'r adborth a dderbyniwyd gan ymgeiswyr yn ystod y gwerthusiad hwn. Ond, dylid ystyried a yw hwn yn wasanaeth y dylai rhaglen CFAP fod yn ei ddarparu. Eto, mae'n bwysig ystyried y mater hwn yng nghyd-destun y rôl strategol sydd gan CFAP mewn adfywio cymunedol yng

Nghymru. Fel y trafodwyd o'r blaen, rôl CFAP fel mae tîm y rhaglen yn deall yw darparu arian prosiect i grwpiau cymunedol. Nid yw'n rhaglen i feithrin gallu.

**Mae'n amlwg bod rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus yn bwysig. Ond mae llinell denau iawn rhwng darparu adborth adeiladol i ymgeiswyr a rhoi cyngor a chanllawiau i grwpiau cymunedol ar ddatblygu prosiectau a chyflwyno ceisiadau am arian grant, sydd, byddai'r tîm gwerthuso'n dadlau, yn weithgaredd meithrin gallu, ac felly tu allan i gylch gorchwyl CFAP.**


Mae'n bwysig cydnabod hefyd bod rhaglenni'n cael eu hariannu gan y Cynulliad i feithrin gallu cymunedau. Nid yw effeithiolrwydd y rhaglenni hynny wedi cael ei ystyried fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Ond mae eu bodolaeth yn awgrymu bod rhaid cwstyynu effeithlonrwydd a phriodolrwydd y ffaith bod tîm CFAP yn mynd tu hwnt i ddarparu 'adborth adeiladol' i ymgeiswyr.

### 3.4.8 Cylch dieflig CFAP

**Mae'r tîm gwerthuso wedi dynodi'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel 'cylch dieflig CFAP'. Mae'r cylch dieflig hwn yn crynhoi'r hyn y mae'r tîm gwerthuso wedi ei gasglu yw un o'r prif bryderon parthed system reoli CFAP.**

Egwyddor y cylch yw, yn yr amgylchiadau cyfredol, y bydd rhagor o geisiadau prosiect yn arwain at wrthod rhagor o brosiectau, a fydd wedyn yn creu'r angen am ragor o adborth a fydd yn ei dro yn arwain at gyflwyno rhagor o geisiadau ac yn y blaen. Mae'r broblem hon yn gwaethygu gan fod CFAP yn gronfa'r cyfle olaf sy'n golygu bod ymgeiswyr yn annhebygol o chwilio am arian o ffynonellau eraill. Gall hyn gael ei waethygu eto gan y cynnydd tebygol yn y galw am arian yn y dyfodol.

Ffigwr 2: Cylch dieflig CFAP



**Mae'n ymddangos yn glir, oni bai bod adnoddau ychwanegol yn dod ar gael neu bod newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r system sy'n rheoli'r nifer**



**o geisiadau a gyflwynir, y bydd system reoli CFAP yn mynd yn anghynaliadwy yn y dyfodol agos iawn o ganlyniad i'r cylch dieflig y mae wedi ei dal ynddo.**

### 3.5 Cyfnod 4 – Monitro ac Adolygu Prosiectau

*Wedi i brosiect gael ei gymeradwyo mae'n symud i'r cyfnod olaf o'r broses reoli, monitro ac adolygu. Yn ystod y cyfnod hwn bydd prosiect yn cael ei fonitro yn ystod ei weithrediad ac, unwaith y bydd wedi ei gwblhau, ei adolygu i sicrhau ei fod wedi ei weithredu yn ôl y cais a gymeradwywyd. Byddai'r cyfnod hwn hefyd yn cynnwys unrhyw asesiad o ddeilliant ac effaith y prosiect ac o'r rhaglen yn ei chyfanrwydd.*

Dan amodau a thelerau ariannu CFAP, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i'r buddiolwyr gadarnhau, ar ddiwedd y prosiect, bod yr arian wedi ei ddefnyddio fel y bwriadwyd o'r dechrau. Unwaith y bydd prosiect wedi ei gwblhau, gofynnir i bob un o'r buddiolwyr trwy lythyr i lenwi *Ffurflen Ddatgan Gwerthuso* a'i dychwelyd at y tîm gweinyddu gyda chopïau o unrhyw dystiolaeth ddogfennol berthnasol fel anfonebau adeiladwyr, cyfrifon blynyddol, datganiadau ariannol ac yn y blaen. Yn ychwanegol, mae'r tîm gweinyddol yn cynnal cyfres o ymweliadau â chyfran o'r prosiectau sydd wedi cael budd o'r rhaglen. Diben yr ymweliad yw, yn y lle cyntaf, archwilio'r prosiect. Fe'i defnyddir hefyd fel cyfle i adolygu manteision y prosiect trwy drafodaethau ag ymgeiswyr y prosiect a'r buddiolwyr. Wedi'r ymweliad, llenwir *Ffurflen Fonitro* ac fe'i cedwir yn y ffeil berthnasol. Ni chynhelir unrhyw weithgareddau monitro eraill.

#### 3.5.1 Cryfderau a gwendidau'r system

Y peth cyntaf i sylwi arno am y cyfnod hwn o'r broses rheoli rhaglen yw bod yr amser sydd gan y tîm gweinyddol ar gael i wneud gwaith monitro prosiectau ac adolygu gweithgareddau yn brin oherwydd y ffocws ar arfarnu a chymeradwyo prosiectau. Fel y nodwyd o'r blaen, mae amser y tîm gweinyddol yn mynd yn bennaf ar y cyfnod blaenorol o'r broses reoli. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar weithgareddau monitro ac adolygu'r tîm. Nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd bod monitro yn rhywbeth y dywedwyd wrthynt y dylid ei wneud "yn ystod cyfnodau tawel" rhwng rowndiau ymgeisio prosiectau sydd, braidd yn anochel, byth yn dod i'r fei.

Mae nifer o gryfderau i'r system a ddefnyddir gan gynnwys y ffaith bod y weithdrefn weinyddol yn hawdd i'w rheoli (a'i monitro) ac mae'r baich gweinyddol ar y buddiolwyr yn gymharol ysgafn o'i gymharu â rhaglenni eraill. Er enghraifft, mae prosiectau a gefnogir gan Amcan 1 yn ddarostyngedig i fonitro sylweddol a rheolau a rheoliadau archwilio. Unwaith eto, mae hyn yn arwydd o ddymuniad tîm gweinyddol y rhaglen i gyfyngu'r baich ar grwpiau cymunedol sy'n ymgeisio am arian CFAP. Ond mae hefyd yn arwain at rai gwendidau a fydd yn cael eu trafod yn ddiweddarach.

**Ar nodyn cadarnhaol, mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu bod tîm CFAP yn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd wedi i'r broses**

**ymgeisio gael ei chwblhau. Mae taliadau a chymorth gan staff LICC wrth ymdrin â phroblemau na ragwelwyd yn haeddu sylw arbennig, dim ond 1.8% o'r ymatebwyr a dderbyniodd daliadau hwyr a dim ond 0.9% ddywedodd nad oedd staff LICC yn barod i fod o gymorth.**

Mae'r tîm gwerthuso'n ymwybodol bod systemau monitro CFAP wedi eu beirniadu gan dimau adolygu mewnol y Cynulliad yn y gorffennol. Ond, dangoswyd systemau i'r tîm sydd yn cael eu rhoi yn eu lle i wella'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i defnyddio.

Mae lefel y manylder a dderbynnir gan brosiectau (hynny yw adroddiadau cynnydd) yn gyfyngedig. Gall hyn arwain at broblemau o ran dynodi problemau (e.e. oedi cyn gweithredu) a all arwain at broblemau o ran sicrhau bod prosiectau unigol, a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd yn cyrraedd y targedau gwariant. Mae'r monitro a wneir wedi i'r prosiect gael ei gwblhau yn gyfyngedig hefyd. Yn ôl y weithdrefn mae 10% o'r prosiectau ymhob sir i dderbyn ymweliad. Ond, nid oes unrhyw weithgareddau monitro ychwanegol ar gyfer mwyafrif y prosiectau unwaith y bydd y *Ffurflen Datganiad Gwerthuso* wedi cael ei chyflwyno. Mae hyn yn golygu mai ychydig, os o gwbl, o ddadansoddi ar ddeilliannau ac effaith sydd i unrhyw brosiect. Er enghraifft, nid oes unrhyw adolygiad ar lefel defnydd cyfleuster flwyddyn wedi iddo gael ei adnewyddu. Gall casglu gwybodaeth o'r fath fod yn ddefnyddiol iawn o ran deall y manteision y mae cymunedau yn eu cael o brosiectau a ariennir gan CFAP.

**Unwaith eto, gall yr uchod ymddangos yn feirniadol. Ond mae angen gwerthuso gweithdrefnau monitro ac adolygu CFAP yng nghyd-destun nodau ac amcanion y rhaglen. Rhaid ystyried unrhyw newidiadau posibl i'r gweithdrefnau monitro ac adolygu o safbwynt mantais-cost gyda 'cost' yn golygu'r adnoddau oedd yn ofynnol ar gyfer y gweithgaredd (amser swyddog) a 'mantais' yn golygu'r fantais o'r wybodaeth a gasglwyd (gwarchod buddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, deall deilliannau'r rhaglen ac yn y blaen).**

Fel y trafodwyd o'r blaen, dyluniwyd CFAP i gefnogi prosiectau ar raddfa fechan, risg isel yn y gymuned. Mae'r broses arfarnu prosiectau hefyd yn gofyn i fantais y prosiect i'r gymuned gael ei dangos yn glir. Felly, mae'n bosibl dadlau nad oes cyfiawnhad dros weithredu system fonitro ac adolygu eang i brosiectau sy'n cynrychioli risg fechan i'r Cynulliad. Ond gall prosiectau mwy, mwy cymhleth a drytach fod â risg fwy ynghlwm ynddynt a all yn wir gyfiawnhau defnyddio system fonitro fwy caeth (a drytach). Efallai mai'r allwedd i'r mater hwn, unwaith eto, yw 'risg' a sut y mae risg yn cael ei ddynodi a'i drin wedyn.

**Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wahaniaethu rhwng prosiect risg isel a phrosiect risg uchel o ran y monitro a'r adolygu. Efallai, felly, bod lle i weinyddwyr y rhaglen ystyried y risg sy'n gysylltiedig â phrosiect pan fydd yn cael ei gymeradwyo a dynodi'r gweithdrefnau monitro ac adolygu a ddefnyddir yn ôl y risg sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwnnw.**



**Er enghraifft, byddai prosiect mawr cymhleth yn cael ei lumanu ac felly yn ddarostyngedig i weithdrefnau monitro mwy manwl.**

Enghraifft o Brosiect: Eglwys Elfed Avenue, Penarth

Mae Neuadd Eglwys Elfed Avenue yn cefnogi deuddeg o weithgareddau yn y gymuned ac mae'n cael cefnogaeth croestoriad o'r gymuned leol sy'n cydnabod y gwaith a wneir i ardal Penarth. Adeiladwyd yr Eglwys ym 1954 ar gyfer stad fawr o dai cyngor, sydd yn awr mewn dwylo preifat yn bennaf; mae preswylwyr yr ardal leol yn groestoriad o ifanc a hen.

Cododd Cyngor Henuriaid Eglwys Unedig Elfed Avenue arian i atgyweirio ei system drydanol 50 mlynedd oed ac adnewyddu'r nenfwd crog. Heb y gwelliannau hyn, byddai'r adeilad wedi mynd yn un na ellid ei ddefnyddio'n gyflym. Cyflwynodd y Cyngor gais llwyddiannus am arian CFAP wedi cyflwyno nifer o geisiadau i raglenni eraill heb lwyddiant. Maent yn gobeithio cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r adeilad i 20,000 mewn blwyddyn.

Enghraifft o Brosiect: Neuadd Lamphey

Mae Neuadd Lamphey ym mhentref bychan Lamphey. Adeiladwyd y neuadd bresennol yn y pentref yn bennaf o asbestos ac ar adeg cyflwyno'r cais am arian CFAP ni fyddai wedi para mwy na blwyddyn. Y neuadd yw canolbwynt y pentref a'r ardal o amgylch. Dyma'r unig adeilad hefyd yn yr ardal a all gartrefu'r llu o weithgareddau sy'n digwydd yn y gymuned ac fe'i defnyddir yn ddyddiol gan nifer fawr o gyrff.

Mae arian CFAP yn cael ei ddefnyddio i adeiladu neuadd bentref newydd yng nghefn y neuadd bresennol ac wedi gorffen yr adeilad newydd, bydd yr hen adeilad yn cael ei dynnu gan ddefnyddio gweithwyr arbenigol i gael gwared â'r asbestos. Bydd datblygiad y neuadd bentref newydd yn golygu y bydd rhagor o grwpiau a chymdeithasau yn medru defnyddio'r cyfleusterau.

## 4 Adolygiad o Fanteision y Rhaglen

---

Mae'r gallu i werthuso manteision unrhyw ffurf ar ymyrraeth yn amlwg yn bwysig. Rhaid i weinyddwyr rhaglen fod yn ymwybodol a yw'r buddsoddiad a wnaed yn werth chweil ac a yw'n cynrychioli gwerth am arian.

Mae'n wybodaeth gyffredin bod mesur mantais gweithgareddau adfywio cymunedol yn anodd. Er y gall fod yn bosibl asesu effeithiolrwydd gweithgareddau cefnogi busnes trwy, er enghraifft, y nifer o swyddi a grëwyd neu a warchodwyd, ni fydd hyn yn bosibl ar gyfer gweithgareddau adfywio cymunedol. Daeth adroddiad diweddar yn asesu effaith gwaith Cyngorau Cymuned gwledig yn Lloegr (Moseley et al, 2006) i'r casgliad bod mesur deilliannau economaidd *“yn gysyniad anodd i ymlafnio ag o yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol a'i bod yn gamsyniad dychmygu y gall deilliannau o'r fath gael eu mynegi yn nhermau rhifyddeg syml neu gost”*.

Ar gyfer dibenion y gwerthusiad hwn, adolygwyd manteision y rhaglen ar sail:

- a) **Manteision Lleol** – fel newidiadau yn lefelau'r defnydd o'r cyfleuster a'r graddau y mae'r effeithiau a ragwelwyd wedi digwydd mewn gwirionedd.
- b) **Manteision Daearyddol** – ar gyfer yr enghraifft ddaearyddol, dosbarthiad yr arian

Gofynnwyd i'r tîm gwerthuso hefyd edrych yn benodol ar nifer o brosiectau oedd yn cefnogi siaradwyr Cymraeg a/neu unigolion gydag anableddau fel rhan o'r adolygiad o fanteision daearyddol.

### 4.1 Manteision Lleol

Defnyddiwyd yr arolwg o fuddiolwyr prosiectau i archwilio manteision lleol y prosiectau a gefnogir gan CFAP. Fel y nodwyd yn nhabl 1 isod, gwelodd yr arolwg o fudd-ddeiliaid prosiectau gynnydd yn y defnydd o gyfleusterau gyda 73% o'r budd-ddeiliaid yn credu bod rhagor o bobl yn defnyddio'r cyfleuster dan sylw wedi derbyn arian.

Nododd mwy na chwarter yr ymatebwyr hefyd eu bod yn cynnal gweithgareddau newydd, mae dros 16% wedi ymuno â grŵp neu glwb newydd ac mae mwy na thraean y bobl wedi gwneud ffrindiau newydd o ganlyniad i'r prosiect dan sylw.

Tabl 1: Ymateb i'r Cwestiwn: "Beth ydych chi'n feddwl y mae'r prosiect wedi ei gyflawni?"


Effaith	% o ddefnyddwyr sy'n nodi'r effaith
Rwyf yn gwneud gweithgareddau newydd	27.1
Rwyf wedi ymuno â grŵp neu glwb newydd	16.3
Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd	36.1
Nid oes raid i mi deithio mor bell ar gyfer fy ngweithgareddau hamdden	18.1
Ysbryd cymunedol wedi gwella	53.6
Rhagor o bobl yn defnyddio'r cyfleuster wedi ei wella	72.9
Mae wedi cyflawni angen amlwg yn y gymuned	64.5
Arall	18.7

Er mwyn archwilio effaith prosiectau CFAP ymhellach, roedd yr holiadur yn cynnwys cyfres o ddatganiadau cadarnhaol a negyddol am brosiectau sy'n cael eu cefnogi y gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno â nhw. Darlunnir yr ymateb i'r datganiadau hyn ar ffurf graff yn ffigurau 3 a 4.

Rhannwyd y canlyniadau yn ddau graff, y cyntaf yn cynnwys ymatebion lle mae 'cytuno' yn ymateb cadarnhaol a'r ail sy'n cynnwys ymatebion lle mai 'anghytuno' yw'r ymateb positif. Hynny yw, mae'r datganiadau a gynhwysir yn ffigur 3 yn ddatganiadau positif fel "mae'r prosiect wedi gwneud cyfraniad positif i'r gymuned". Mae'r datganiadau yn ffigur 4 yn rhai negyddol fel "dim ond ychydig o bobl yn y gymuned sy'n cael mantais o'r prosiect".

Ffigur 3: Ymateb i'r Cwestiwn: "Beth ydych chi'n feddwl y mae'r prosiect wedi ei gyflawni?"

(datganiad pan fydd 'cytuno' yn well)




Mae Ffigwr 3 yn darlunio faint o'r ymatebwyr oedd yn 'cytuno' neu'n 'anghytuno' â'r datganiadau canlynol:

- Mae'r prosiect wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at ein cymuned.
- Yn gyffredinol rwyf wedi fy mhlesio â'r prosiect.
- Mae pwyntiau da a drwg ond yn gyffredinol mae mwy o rai da na drwg.
- Rwyf wedi dysgu sgiliau newydd/dilyn dosbarth nos oherwydd y prosiect.
- Rwyf yn gwneud mwy o ymarfer corff oherwydd y prosiect.
- Mae'r prosiect wedi helpu grŵp sy'n bodoli i gysylltu â grwpiau eraill yn y gymuned.
- Mae'r prosiect wedi helpu grŵp sy'n bodoli i gysylltu â grwpiau ethnig eraill yn y gymuned.
- Mae'r prosiect wedi helpu grŵp sy'n bodoli i gysylltu â grwpiau oedran eraill yn y gymuned.

Mae'r nifer o ymatebwyr sy'n anghytuno â'r datganiadau positif hyn yn isel iawn. Mae'r nifer sy'n cytuno bod eu prosiect "wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'n cymuned" ac "yn gyffredinol rwyf wedi fy mhlesio" yn drawiadol o uchel. Mae hyn yn adlewyrchiad positif iawn ar y prosiectau a gefnogir gan CFAP.

Ffigwr 4: Ymateb i'r Cwestiwn: "Beth ydych chi'n ei feddwl y mae'r prosiect wedi ei gyflawni?"

(datganiad pan fydd 'anghytuno' yn well)



Mae Ffigwr 4 yn darlunio faint o'r ymatebwyr oedd yn 'cytuno' neu'n 'anghytuno' â'r datganiadau negyddol canlynol:

- Ychydig o bobl sy'n cael budd o'r prosiect yn y gymuned.

- *Fe ddylid fod wedi cael rhagor o ymgynghori â'r gymuned.*
- *Gellid bod wedi defnyddio'r arian ar brosiectau mwy manteisiol.*
- *Yn gyffredinol rwyf wedi fy siomi â'r prosiect.*
- *Mae pwyntiau da a drwg ond yn gyffredinol mae'r rhai drwg yn gryfach na'r rhai da.*

Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd yn anghytuno â'r datganiadau hyn. Eto, mae hyn yn adlewyrchu'n gadarnhaol iawn ar y rhaglen ac yn dangos bod parch mawr i brosiectau a gefnogir gan CFAP ymhlith y rhai a gyfwelwyd.

#### 4.1.1 Casgliadau

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod deilliannau'r prosiectau'n sylweddol o safbwynt y budd-ddeiliad. Maent hefyd yn dangos, yn unol ag amcanion y rhaglen, bod y deilliannau yn dueddol o fod yn rhai lleol i'r gymuned dan sylw. Dengys hyn bod CFAP yn amlwg yn effeithiol a bod manteision y prosiectau a gefnogir, yn lleol, yn sylweddol.

##### Enghraifft o Brosiect: Neuadd Gymuned Cwmafon

*Adeiladwyd y Neuadd Gymuned ym mhentref Cwmafon yn wreiddiol fel ysgoldy i'r Capel Wesleidd gerllaw. Roedd y capel o garreg ar y brif ffordd o Bont-y-pŵl i Flaenafon mewn ardal oedd yn gofyn am lawer o gloddio i gael digon o le i'r ddau adeilad. Pan gaewyd y capel yn gynnar yn yr 1970au prynwyd yr adeiladau gan gymuned y pentref a daeth y neuadd yn adeilad cymunedol. Ers hynny mae'r neuadd wedi chwarae rhan weithredol wrth gynnig gofod a chyfleusterau i lawer o weithgareddau lleol. Yn anffodus, daeth arolwg o'i gyflwr o hyd i ddiffygion mawr yn yr adeilad. Roedd hyn, yn ychwanegol at y problemau o ran dyluniad oedd yn golygu ei bod yn amhosibl i bobl â phroblemau symud gael mynediad i'r neuadd, yn golygu ei bod yn mynd yn amhosibl parhau i ddefnyddio'r adeilad.*

*Chwiliodd y gymuned am arian i ariannu neuadd gymunedol newydd a buont yn llwyddiannus â'u cais am arian CFAP. Cynigiodd y grant yr arian cyfatebol angenrheidiol ar gyfer yr arian Loteri Fawr oedd wedi ei sicrhau yn barod. Gall y neuadd newydd gartrefu'r gweithgareddau cyfredol a fwynheir gan grwpiau cymunedol Cwmafon fel clwb cinio, dosbarthiadau ffitrwydd, cymdeithas preswylwyr, clwb hyfforddi cŵn, clwb garddio, grwpiau mam a'i phlentyn yn ogystal â nifer o weithgareddau ychwanegol.*

## 4.2 Manteision Daearyddol


Defnyddiwyd dadansoddiad Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS) fel modd o archwilio pa ranbarthau yng Nghymru sydd wedi cael budd o arian CFAP. Mae GIS yn fodd defnyddiol iawn o ddadansoddi materion fel lle mae arian y rhaglen wedi ei wario ac yn y blaen. Gall hefyd gynnig golwg ar faterion na all fod yn amlwg fel arall.

Ar gyfer datblygu'r mapiau, mewnforiwyd gwybodaeth o gronfa ddata rheoli'r rhaglen y Cynulliad i system GIS ac yna ei fapio ar fap o Gymru yn dangos ffiniau etholiadol newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhyrchwyd y mapiau canlynol:


1. cyfartaledd y taliad am brosiectau a dalwyd/a gymeradwywyd
2. nifer y sefydliadau sy'n gysylltiedig â phrosiectau a gymeradwywyd
3. y nifer o brosiectau a gymeradwywyd
4. nifer a math y cyllidwyr arian cyfatebol sy'n gysylltiedig â phrosiectau a gymeradwywyd
5. y nifer o brosiectau a gymeradwywyd sy'n 'Gymraeg eu hiaith'
6. y nifer o brosiectau 'anabl' a gymeradwywyd

Map 1: Cyfartaledd y Taliadau ar gyfer Prosiectau a Gymeradwywyd yn Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Mae'r map uchod yn dangos bod nifer o fannau yn benodol lle mae cyfartaledd y taliad ar gyfer prosiectau CFAP a gymeradwyir uchaf. Mae'r manau hynny yn cynnwys Ynys Môn, Cwm Cynon, Preseli Sir Benfro, Castell-nedd ac Ogwr.


Map 2: Nifer y Sefydliadau sy'n Gysylltiedig â Phrosiectau a Gymeradwyir yn Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Mae'r map uchod yn dangos nifer o ranbarthau sy'n cynnwys sefydliadau sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth gael arian gan CFAP. Gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys bodolaeth rhwydwaith gefnogi gymunedol arbennig o gryf yn y rhanbarth (Menter Môn ar Ynys Môn er enghraifft). Efallai bod cyfiawnhad dros ymchwilio ymhellach i hyn.




Map 3: Y Nifer o Brosiectau a Gymeradwywyd yn Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru




Eto, mae'r map hwn yn dangos yn glir bod rhanbarthau yng Nghymru sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth gael cefnogaeth CFAP i brosiectau. Yn arbennig ymddengys bod gan Ynys Môn, Dwyfor Meirionnydd, Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro nifer uwch na'r cyfartaledd o brosiectau wedi eu cymeradwyo. Mae'n ddi-ddorol nodi nad yw'r patrwm hwn yn cyfateb i ddisbarthiad y taliadau cyfartalog na'r nifer o gyrff sydd wedi cael eu cysylltu â phrosiectau CFAP fel y darlunnir gan fapiau 1 a 2.

Map 4: Nifer a math o gyllidwyr arian cyfatebol sy'n gysylltiedig â Phrosiectau a Gymeradwywyd yn Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru




Mae'r map uchod yn ddiddorol gan nad yw'n cyfateb i'r mapiau blaenorol gan ei fod yn dangos bod lefel yr arian cyfatebol yn Ne Cymru a'r Cymoedd yn llawer uwch na'r rhanbarthau eraill. Efallai bod nifer o resymau am hyn gan gynnwys y posibilrwydd bod mwy o ffynonellau arian 'eraill' neu 'ychwanegol' ar gyfer prosiectau yn y rhanbarthau hynny. Efallai bod hyn eto yn fater y gellid ymchwilio ymhellach iddo.

Map 5: Y Nifer o Brosiectau a Gymeradwywyd sy'n 'Gymraeg eu hiaith' yn Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Fel y darlunnir gan y map uchod, ychydig o brosiectau 'Cymraeg eu hiaith' a welwyd yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle na fydddech yn disgwyl i'r math hwnnw o brosiect fod yn flaenoriaeth i'r gymuned. Ond mae rhai ardaloedd sy'n tynnu sylw a all gyfiawnhau rhagor o ymchwil.

Map 6: Y Nifer o Brosiectau 'Anabledd' a Gymeradwywyd yn Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Unwaith eto mae rhai ardaloedd yn amlwg, ac eto'r brif ardal yw Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro. Mae'r ffaith bod yr ardal hon yn cyfateb i'r un a ddynodwyd gan y pam blaenorol yn awgrymu bod corff neu unigolyn yn y rhanbarth hwn sydd yn gweithio ar ddatblygu rhai mathau o brosiectau.

Enghraifft o Brosiect: Eglwys Sant James

*Corff Cristnogol yw Eglwys Sant James, gyda'r prif nod o hybu'r ffydd Gristnogol a chael rôl weithredol wrth ddiwallu anghenion y gymuned.*

*Mae anghenion y dref yn awr yn llawer mwy cymhleth nag oeddynt pan adeiladwyd Sant James gyntaf a defnyddiwyd arian CFAP ar gyfer prosiect a fyddai'n darparu canolfan dda ar gyfer addoli a chyfleusterau na fyddai ar gael fel arall yn Nhreffynnon, fel canolfan galw i mewn am de/coffi, clwb cinio ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol. Roedd y gymuned wedi llwyddo i godi £425,000 yn barod ar gyfer y prosiect hwn ond roedd yn chwilio am £200,000 arall, a dyna'r grant a roddwyd gan CFAP.*

Enghraifft o Brosiect: Grŵp Cymunedol Vineyard Vale

*Nod Grŵp Cymunedol Vineyard Vale yw cael budd i'r holl breswylwyr trwy weithio gyda chymunedau i ddatblygu a gwella'r ardal lle maent yn byw.*

*Cyflwynwyd cais i CFAP am arian i dirlunio parc adfeiliedig i greu dwy ardal benodol. Bydd yr ardal gyntaf yn barc i'r holl blant sy'n byw yn yr ardal o 1-14 oed. Bydd yn cynnwys offer parc i'r holl blant ifanc gan gynnwys siglenni, llithrennau, offer dringo ac offer addysgol. Bydd yr ail ardal yn ardal i'r gymuned/hamdden, a fydd wedi ei balmantu'n galed gyda ffens 4 metr o'i amgylch. Defnyddir yr ardal hon ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a gan bobl o bob oed a gallu.*

#### 4.2.1 Casgliadau

Mae'r dadansoddiad GIS wedi dynodi nifer o fannau amlwg diddorol yng Nghymru. Mae'n amlwg bod rhai rhanbarthau wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth gyflwyno ceisiadau a chael arian CFAP nag eraill. Mae ardaloedd eraill wedi bod yn fwy llwyddiannus mewn cyfeiriadau eraill, fel medru defnyddio arian cyfatebol.

**Gall y rhesymau am hyn fod yn amrywiol. Ond, mae'r tîm gwerthuso'n amau y gall fod oherwydd bod corff cefnogi adfywio cymunedol arbennig o effeithiol yn y rhanbarth dan sylw. Ni lwyddwyd i dynnu unrhyw gasgliadau penodol pam bod hyn yn wir yn ystod y gwerthusiad hwn. Efallai y byddai'n addas, felly, i wneud rhagor o ymchwil mewn un neu nifer o'r ardaloedd a ddaeth i'r amlwg i bennu pam bod rhai rhanbarthau yn fwy llwyddiannus na rhai eraill wrth gael mynediad at arian CFAP.**

## 5 Casgliadau ac Argymhellion

---

Bydd adran olaf yr adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau'r broses werthuso. Mae hefyd yn cynnwys cyfres o argymhellion a wnaed gan y tîm werthuso i'r Cynulliad eu hystyried.

### 5.1 Y Cwestiynau Gwerthuso

Bydd y canlynol yn ymdrin â'r cwestiynau gwerthuso fel y'u nodwyd yn y briff ar gyfer y prosiect hwn.

#### 5.1.1 Pa mor effeithiol yw'r cynllun wrth wireddu ei amcanion polisi?

Nodir casgliadau adolygiad y tîm werthuso o effeithiolrwydd CFAP o ran gwireddu ei amcanion polisi isod.

- a) Mae'r deilliannau gan brosiectau a gefnogir gan CFAP, yn unol ag amcanion y rhaglen, yn rhai lleol. Mae'r rhaglen yn cael effaith sylweddol yn yr ardal sy'n lleol i bob prosiect y mae'n eu cefnogi. Felly mae'r tîm werthuso wedi dod i'r casgliad bod CFAP yn amlwg yn effeithiol a bod y manteision i'r prosiectau a gefnogir yn sylweddol.
- b) Rheolir CFAP gyda phwyslais cryf ar y 'cwsmer' sydd, yn yr enghraifft hon, yn bennaf, yn gyrff cymunedol a sector gwirfoddol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhaglen yn adlewyrchu anghenion y cwsmeriaid ac i sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei ddarparu bob amser. Canlyniad hyn yw bod y rhaglen, ei deunyddiau gweinyddu (ffurflenni cais ac ati) a'r gwasanaeth a ddarperir gan staff y Cynulliad yn cael eu hystyried yn rhagorol gan fwyafrif mawr o ymgeiswyr a buddiolwyr CFAP.
- c) Dynododd y gwerthusiad duedd gynyddol tuag at gyflwyno ceisiadau am gefnogaeth gan 'gyrff proffesiynol'. Heb ei atal, bydd y duedd hon yn cael ei chyflymu gan newidiadau ym mlaenoriaethau Cronfeydd Strwythurol rhwng 2007-2013 sy'n debygol o leihau'r nifer o ffynonellau cyllido eraill. Os bydd yn parhau, gall y duedd hon gael oblygiadau sylweddol i raglen CFAP gan gynnwys:
  - newidiadau i'r math o brosiectau y mae CFAP yn eu cefnogi: mae'r prosiectau'n debygol o fynd yn rhai sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth i'r gymuned (fel cynllun grantiau bychain) yn hytrach na phrosiectau unwaith ac am byth; a
  - mae'n debygol y bydd raid i ansawdd y cais fydd yn angenrheidiol i gael arian gan CFAP fod yn uwch, gan ei gwneud yn anos i gyrff amhroffesiynol i gael mynediad at arian CFAP.
- d) Bydd gan yr uchod oblygiadau i'r ffordd y dylid rheoli'r rhaglen. Gallant hefyd gael oblygiadau ar allu'r rhaglen i wireddu ei amcanion polisi.

### 5.1.2 Pa mor effeithlon y mae adnoddau'r cynllun yn cael eu dyrannu?

Dau adnodd allweddol sydd gan CFAP: adnoddau ariannol a'r adnodd dynol sydd ar gael i weinyddu'r rhaglen. Ystyriwyd y ddau fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

- a) Mae CFAP wedi ei ddal mewn 'cylch dieflig'. Mae nifer gynyddol o geisiadau yn arwain at gynnydd yn y nifer o geisiadau sy'n cael eu gwrthod, sy'n arwain at gynnydd yn y nifer o grwpiau cymunedol sy'n derbyn cyngor ac arweiniad ar wella eu ceisiadau sydd wedyn yn arwain at gynnydd yn y nifer o geisiadau ac yn y blaen. Rhaid i'r cylch dieflig hwn gael ei dorri os yw'r rhaglen am barhau i gael ei rheoli'n effeithiol.
- b) Mae'r baich gwaith ar dîm gweinyddu'r rhaglen, ym marn y tîm gwerthuso, yn uchel a gall y pwysau y mae'n ei roi ar unigolion yn y tîm arwain yn anochel at broblemau o ran rheoli'r rhaglen.
- c) Mae arfarnu ceisiadau, i raddau helaeth, yn ddibynnol ar wybodaeth a phrofiad a ddatblygwyd yn nhîm gweinyddu'r rhaglen. Mae system reoli'r rhaglen felly, yn agored i newidiadau anochel mewn personél.
- d) Oherwydd swmp y ceisiadau a gyflwynir a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, mae amser tîm gweinyddu'r rhaglen yn cael ei lyncu gan arfarnu ceisiadau gan brosiectau ar draul gweithgareddau eraill gan gynnwys monitro ac adolygu prosiectau. Gall hyn arwain at anawsterau a golygu nad yw gweithgareddau monitro ac adolygu yn cael eu gwneud ar lefelau addas.
- e) Mae astudiaeth feirniadol o system arfarnu'r prosiect wedi dynodi nifer o fylchau yn y weithdrefn. Ond, mae'r tîm gwerthuso wedi dod i'r casgliad, o safbwynt cost-mantais, nad yw'r math o brosiect a gefnogir (yn y mwyafrif o achosion) yn cyfiawnhau gwario'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar system arfarnu fwy cynhwysfawr. Ond dylid ystyried gwneud gwaith arfarnu mwy trylwyr ar brosiectau 'risg uchel'.
- f) Mae'n amlwg bod darparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus yn bwysig ac mae'r gwasanaeth a ddarperir gan dîm CFAP i ymgeiswyr yn cael ei ganmol. Ond, o ystyried nad yw CFAP yn rhaglen meithrin gallu, mae llinell fain iawn rhwng darparu adborth adeiladol i ymgeiswyr a darparu cyngor a chanllawiau i grwpiau cymunedol ar ddatblygu prosiectau a chyflwyno ceisiadau am arian grant, sydd, fe fyddai'r tîm gwerthuso'n dadlau, yn weithgaredd meithrin gallu. Mae maint yr adnoddau sydd yn cael eu dyrannu ar hyn o bryd i ddarparu adborth a chynghor i ymgeiswyr yn awgrymu bod tîm CFAP yn darparu 'gweithgareddau meithrin gallu' sydd y tu allan i gylch gorchwyl y rhaglen. Mae priodoldeb hyn yn amheus o ystyried bod rhaglenni eraill yn cael eu hariannu i ddarparu'r gwasanaethau hynny.
- g) Mae'n amlwg bod arian CFAP yn cael effaith leol sylweddol ar y cymunedau a gefnogir. Ond mae'r ffaith bod y rhaglen yn cael ei rheoli ar



sail gystadleuol ac yn cael ei harwain gan y galw yn golygu mai cyfyngedig yw rheolaeth y tîm gweinyddu ar dargedu'r arian yma. Ond nid yw'r ffaith nad yw CFAP yn cael ei dargedu ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn cael ei ystyried yn wendid yn y rhaglen. Mae'n bwysig ystyried CFAP yn y cyd-destun addas. Nid yw'n rhaglen meithrin gallu ac nid yw wedi ei dylunio i gefnogi cymunedau i ddatblygu prosiectau i adfywio eu cymunedau. Dyluniwyd y rhaglen i ariannu gweithrediad prosiectau. Dyluniwyd ac ariannwyd rhaglenni eraill ar gyfer meithrin gallu. Mae effeithiolrwydd y rhaglenni meithrin gallu hynny yn allweddol i alluogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig i gael cefnogaeth trwy CFAP ac efallai bod angen adolygu hynny eto.

### 5.1.3 Pa mor effeithiol yw'r system a gyflwynwyd i fonitro deilliannau ac allbynnau prosiectau unigol?

- a) Fel y nodwyd o'r blaen, mae ffocws cryf ar arfarnu a chymeradwyo prosiectau yng ngweithdrefn reoli'r rhaglen. Mae hyn yn cyfyngu ar yr amser sydd gan y tîm i fonitro deilliannau ac allbynnau prosiectau unigol.
- b) Mae'r swm o wybodaeth a dderbynnir gan brosiectau (adroddiadau ar gynydd ac yn y blaen) fel rhan o'r broses fonitro prosiect yn gyfyngedig. O safbwynt y buddiolwyr, mae hyn yn beth da gan ei fod yn cyfyngu ar y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Ond, o safbwynt gweinyddwr, gall hyn arwain at broblemau o ran dynodi problemau. Er enghraifft efallai na fydd oedi wrth weithredu yn cael ei ddarganfod a all wedyn arwain at broblemau parthed cyrraedd targedau gwariant ac yn y blaen.
- c) Nid oes adolygu ar ddeilliannau tymor canolig i hir prosiectau a ariennir gan CFAP. Gall hyn gyfyngu ar ddealltwriaeth y Cynulliad o fanteision y rhaglen. Ond, daeth y tîm gwerthuso i'r casgliad mai ychydig o gyfiawnhad o safbwynt cost-mantais sydd dros weithredu system fonitro ac adolygu eang ar gyfer prosiectau sydd (yn bennaf) yn rhai syml iawn lle mae'r manteision yn glir a lle nad oes fawr o risg i'r Cynulliad. Ond, gall prosiectau mwy, mwy drud fod â risg fwy ymhlyg ynddynt a all yn wir gyfiawnhau monitro a gwerthuso mwy trylwyr.

## 5.2 Argymhellion

- a) Dylid cymryd camau i sicrhau bod y rhaglen yn cadw ei ffocws ar gefnogi prosiectau 'a arweinir gan gymunedau'. Mae'r dewisiadau posibl yn cynnwys:
  - i. Cyfyngu'r swm o arian sydd ar gael i drydydd parti a chyrff proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i'r gymuned.
  - ii. Neilltuo cyfran o'r arian ar gyfer ceisiadau gan grwpiau cymunedol neu sector gwirfoddol.




- iii. Darparu arian i grwpiau cymunedol a gwirfoddol i ganiatáu iddynt gael mynediad at gefnogaeth broffesiynol yn ystod y gwaith o ddatblygu'r prosiect.
- b) Dylai'r adnoddau a ddyrennir i'r rhaglen CFAP gael eu hadolygu i sicrhau bod y rhaglen yn parhau i gefnogi gweithrediad prosiectau adfywio cymunedau. Dylid ystyried cynnydd yn lefelau'r arian a'r staff.
- c) Os na ellir sicrhau bod arian a/neu staff ychwanegol yn dod ar gael, dylid ystyried cyflwyno peirianwaith i reoli faint o geisiadau a gyflwynir ac i leihau'r baich gwaith i dîm gweinyddu'r rhaglen. Gallai'r dewisiadau i'w hystyried gynnwys:
  - i. Cyfyngu'r nifer o weithgareddau a chyfleusterau sy'n gymwys (e.e. cronfeydd refeniw yn unig os ydynt yn gysylltiedig â datblygu cyfleuster).
  - ii. Rowndiau o geisiadau ar themâu penodol (e.e. prosiectau trafndiaeth cymunedol).
  - iii. Proses ymgeisio ddau gam – cymeradwyo prosiectau mewn egwyddor neu ddarparu arian i grwpiau cymunedol i gyflogi ymgynghorwyr i ddarparu cefnogaeth i'r datblygiad.
- d) Dylai CFAP gadw ei bwyslais ar ariannu gweithredu prosiectau yn hytrach na chynghori cymunedau ar ddatblygu prosiectau a chyflwyno ffurflen gais.
- e) Dylid ystyried trefniadau gwahanol ar gyfer darparu adborth a chefnogaeth i ymgeiswyr aflwyddiannus (er enghraifft, darparu cyngor ac arweiniad trwy raglenni a chyrrff meithrin gallu'r Cynulliad a/neu gyfres o weithdai adborth ar draws Cymru).
- f) Gall peth gwaith meithrin gallu wedi ei dargedu fod yn briodol i helpu'r cymunedau hynny â llai o strwythur iddynt i gael mynediad at adnoddau CFAP (gan gynnwys mynediad at gefnogaeth broffesiynol). Gall fod yn addas darparu'r gefnogaeth hon trwy raglenni a sefydliadau meithrin gallu wedi eu hariannu gan y Cynulliad.
- g) Dylid ystyried y potensial o gomisiynu rhagor o ymchwil i'r rhesymau pam bod rhai rhanbarthau yng Nghymru wedi bod yn fwy llwyddiannus nag eraill wrth gael mynediad at adnoddau CFAP. Dylai'r ymchwil ganolbwyntio ar ddynodi'r ffactorau hynny sydd wedi bod yn allweddol i lwyddiant y rhanbarth gyda golwg ar, o bosibl, ailadrodd y ffactorau hynny mewn rhanbarthau eraill o Gymru.
- h) Dylid datblygu mwy o gysylltiadau gydag adrannau eraill y Cynulliad â rhaglenni a sefydliadau adfywio cymunedol a ariennir gan y Cynulliad gyda golwg ar:
  - i. gynyddu eu rôl wrth ddatblygu prosiectau a cheisiadau a gyflwynir i CFAP (a thrwy hynny gyfyngu'r nifer o geisiadau 'gwan' a gyflwynir).

- ii. dynnu arbenigedd addas i mewn yn ystod y gwaith o arfarnu ceisiadau.
- i) Rhaid ystyried y lefel o risg sy'n gysylltiedig â phrosiectau fel rhan o'r broses arfarnu gyda phrosiectau 'risg uchel' yn ddarostyngedig i broses arfarnu fwy trylwyr.
- j) Dylai prosiectau sy'n cael eu dynodi fel rhai 'risg uchel' fod yn ddarostyngedig i fonitro ac adolygu mwy trylwyr gan dîm gweinyddu'r rhaglen.

Gallai gweithredu rhai o'r awgrymiadau uchod, ym marn y tîm gwerthuso, gael eu defnyddio i dorri'r cylch dieflig y mae CFAP wedi ei ddal ynddo fel y'u darlunnir isod. Mae hyn yn hanfodol i gynaliadwyedd y rhaglen yn y tymor canolog i hir.

Ffigwr 5: Torri cylch dieflig CFAP



## Atodiad 1: Adolygiad o Strategaethau

---

### Cyflwyniad

Adolygiad byr o'r strategaethau allweddol yng Nghymru yw'r canlynol sy'n archwilio sut y mae CFAP yn cyd-fynd â'r strategaethau hyn, ac yn bwysig, a oes gan CFAP rôl yn y gwaith o ddarparu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad.

### Cymru: Gwlad Well

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi ei hagenda strategol yn '*Cymru: Gwlad Well*'. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth am "ddyfodol cynaliadwy i Gymru lle mae'r holl weithredu dros welliannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn gweithio gyda'i gilydd i greu newid cadarnhaol".

Mae'n dynodi deg ymrwymiad fel rhaglenni arweiniol i yrru ei dull unigryw o gyflwyno iechyd, swyddi a chyfiawnder cymdeithasol ymlaen, ar sail anghenion dinasyddion a chymunedau ac adlewyrchu gwerthoedd cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

Ymhlith y camau ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon mae:

- Hyrwyddo economi amrywiol, gystadleuol gyda gwerth ychwanegol uchel, gyda sgiliau ac addysg o ansawdd uchel, sy'n lleihau'r pwysau ar yr amgylchedd.
- Gweithredu ar gyfiawnder cymdeithasol sy'n ymdrin â thlodi ac afiechyd, ac yn rhoi'r modd i bobl a'u cymunedau i helpu eu hunain ac i dorri allan o'r trap tlodi.
- Gweithredu yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n cryfhau balchder yn y gymuned, yn cefnogi bioamrywiaeth, ac yn hyrwyddo cyflogaeth leol gan helpu i leihau'r gwastraff a grëir a'r gofynion ynni a thrafnidiaeth.
- Hyrwyddo bod yn agored, partneriaeth a chyfranogiad.

### Cynllun Gofodol Cymru

Mae *Cynllun Gofodol Cymru* yn un o 'flociau adeiladu' arweiniol strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yn anelu at sicrhau bod polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i rhaglenni yn dod at ei gilydd yn effeithiol gyda gweithrediadau llywodraeth leol, busnes a phartneriaid eraill ar draws Cymru, i alluogi dyfodol gwirioneddol gynaliadwy.

Mae'n gosod agenda strategol, sy'n integreiddio ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ac felly bydd yn cael dylanwad allweddol ar faterion adfywio cymunedol a chyfleoedd ar draws ardaloedd daearyddol a sectorau gwahanol.

Yn benodol, bydd y Cynllun yn:

- Darparu fframwaith clir ar gyfer gweithredu ar y cyd yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau, awdurdodau lleol, y sectorau preifat a gwirfoddol i gyflawni'r blaenoriaethau y mae'n eu gosod yn genedlaethol a rhanbarthol.
- Dylanwadu ar leoliad gwariant gan Lywodraeth y Cynulliad a'i hasiantaethau.
- Dylanwadu ar gydbwysedd a'r cyfuniad o raglenni asiantaethau darparu sector cyhoeddus mewn gwahanol ardaloedd.
- Gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol.
- Darparu sylfaen o dystiolaeth glir i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu polisi a gweithredu.

Bydd y Cynllun hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu unrhyw Gronfeydd Strwythurol UE yn y dyfodol, gan ddilyn ymlaen o'r rhaglenni cyfredol (2000-06).

Fel rhan o'r fframwaith cyffredinol i Gymru, mae chwe ardal benodol o Gymru wedi cael eu dynodi. Dadl sylfaenol Cynllun Gofodol Cymru yw y bydd ar bob ardal angen ymateb gwahanol i gyflawni ei dyfodol. Mae'r Cynllun Gofodol yn cynnig fframwaith ar gyfer cydweithredu, cysylltu polisiâu cenedlaethol a lleol, ac mae wedi ei siapio gan ystod anferth o gyrrff ac unigolion. Mae'n cynnig y sylfaen i Lywodraeth y Cynulliad weithio gyda'i phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i droi'r gweledigaethau ar gyfer ardaloedd gwahanol o Gymru yn ffaith.

## Creu'r Cysylltiadau

Mae *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru*, a gyhoeddwyd yn Hydref 2004, a'r cynllun gweithredu dilynol *Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*, yn amlinellu gweledigaeth y Llywodraeth am Wasanaeth Cyhoeddus Cymreig sy'n rhannu nodau cyffredin ac yn gweithio ar draws ffiniau swyddogaethol a threfniadol.

Ei genhadaeth yw diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i'w gwneud:

- I ganolbwyntio mwy ar y dinesydd.
- Yn ymatebol i anghenion cymunedau.
- Yn rhai sy'n cael eu gyrru gan ymrwymiad i gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.
- Yn rhai sy'n effeithlon.

Mae *Creu'r Cysylltiadau* yn amlinellu'r pedair prif egwyddor:

- Dinasyddion yn Ganolog: gwasanaethau yn fwy ymatebol i ddefnyddwyr gyda phobl a chymunedau yn ymwneud â chynllunio'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.
- Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: pawb i gael y cyfle i gyfrannu ac ymestyn at y rhai anoddaf eu cyrraedd.
- Gweithio gyda'n gilydd fel y Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig: mwy o gydlynw rhwng darparwyr i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy, o ansawdd sy'n ymatebol.
- Gwerth am Arian: gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

Ymhlith ei nodau mae dymuniad i weld gwasanaethau sy'n fwy ymatebol i anghenion dinasyddion a chymunedau, ac sy'n cael eu cynllunio a'u rhedeg gyda'u hymlyniad gweithredol.

## Cymru: Economi yn Ffynnu

*Cymru: Economi yn Ffynnu* yw'r fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru. Mae'r dull y mae'n ei amlinellu yn canolbwyntio ar annog twf economaidd cryf a chynaliadwy trwy ddarparu cyfleoedd i bawb. Mae'r dull a ddisgrifir yn adlewyrchu'r nodau a nodir yn *Cymru: Gwlad Well* i greu rhagor o swyddi a'r rheiny'n rhai gwell.

Mae'r strategaeth yn nodi mai blaenoriaethau'r Llywodraeth wrth weithio ar ei gweledigaeth fydd:

- Cynyddu cyflogaeth ymhellach eto fel bod cyfradd cyflogaeth Cymru yn cyfateb i gyfartaledd y DU ymhén amser, hyd yn oed wrth i gyfradd cyflogaeth y DU ei hun godi.
- Codi ansawdd swyddi fel bod cyflogau ar gyfartaledd yn cynyddu a chau'r bwlich rhyngddynt â chyfartaledd y DU.

Mae'r camau allweddol tuag at gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys:

- Cefnogi creu swyddi a helpu unigolion i ymdrin â rhwystrau sy'n atal cymryd rhan ym myd gwaith.
- Buddsoddi i adfywio cymunedau ac ysgogi twf economaidd ar draws Cymru.
- Helpu busnesau i dyfu a chynyddu'r gwerth ychwanegol i bob swydd a chyflog.
- Sicrhau bod yr holl raglenni economaidd a pholisïau yn cefnogi datblygu cynaliadwy, yn arbennig trwy annog creu ynni glân a defnyddio adnoddau yn effeithlon.

## Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Seiliwyd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sy'n nodi gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad am system drafnidiaeth integredig ac effeithiol, o gwmpas deilliannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y mae Llywodraeth y Cynulliad am eu cyflawni. Mae llawer o'r rhain wedi eu selio ar fynediad at wasanaethau, er enghraifft, y deilliannau cymdeithasol ac economaidd perthnasol yw:

- Gwella mynediad at ofal iechyd
- Gwella mynediad at addysg a dysgu gydol oes
- Gwella mynediad at gyfleusterau siopa a hamdden, a
- Gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth

Bydd yr un deilliannau'n cael eu hailadrodd yn y cyfarwyddyd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a disgwylir i Awdurdodau Lleol gyfrannu at gyflawni'r deilliannau.

## Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar Gyfer Cymru

Mae *Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar Gyfer Cymru* (2005) yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru am fentrau cymdeithasol deinamig a chynaliadwy fydd yn cryfhau economi Gymreig sy'n tyfu ac yn un gynhwysol. Mae hefyd yn anelu at weld rhagor o gydnabyddiaeth i fentrau cymdeithasol yn y gwaith o adfywio cymunedau Cymru yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Nod y Strategaeth yw creu amgylchedd sy'n annog mentrau cymdeithasol newydd ac yn manteisio ar y cyfleoedd i weld twf. Mae hefyd yn gobeithio sefydlu cefnogaeth integredig i'r sector fydd yn ymwneud â chael asiantaethau prif-ffrwd ac arbenigol i gymryd rhan gan arwain at greu sector mentrau cymdeithasol ffyniannus yng Nghymru.

Mae'r gydnabyddiaeth yma gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o gyfraniad posibl mentrau cymdeithasol i economi a chymunedau Cymru yn cynnig cyd-destun polisi sy'n addas i ddatblygu a thyfu sector sy'n cynnig effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd oll yn elfennau allweddol o adfywio.

## Cronfeydd Strwythurol 2000 - 2006

Derbyniodd Cymru arian sylweddol trwy nifer o Raglenni Ewropeaidd gan gynnwys Amcan 1 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Amcan 2 ac Amcan 3 yn Nwyrain Cymru, y Cynllun Datblygu Gwledig ac ystod o Fentrau Ewropeaidd fel LEADER+, URBAN II, INTERREG III A, B a C, ac EQUAL.

## Amcan 1

Rownd raglenni Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 oedd y gyntaf i Orllewin Cymru a'r Cymoedd gael budd Statws Amcan 1. Anelir y cyllid hwn at y rhanbarthau mwyaf difreintiedig yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae cyfanswm yr arian ar gyfer yr ardal hon (£1.28 biliwn) yn cyfrif am 84% o gyfanswm y cyllid sydd ar gael. Mae'r Rhaglen wedi ei lunio o amgylch chwech o Flaenoriaethau, pob un ohonynt yn canolbwyntio ar faes o weithgaredd economaidd gyda photensial am ddatblygiad a thwf. Sef:

- Blaenoriaeth 1: Ehangu a datblygu'r sylfaen busnesau bach a chanolig.
- Blaenoriaeth 2: Datblygu blaengaredd a'r economi ar sail gwybodaeth.
- Blaenoriaeth 3: Adfywio economaidd cymunedol.
- Blaenoriaeth 4: Datblygu pobl.
- Blaenoriaeth 5: Datblygu gwledig a defnydd cynaliadwy ar adnoddau naturiol.
- Blaenoriaeth 6: Datblygu isadeiledd strategol.

Blaenoriaeth 3 yw'r un fwyaf perthnasol i CFAP. Nod y flaenoriaeth hon yw brwydro yn erbyn allgauedd cymdeithasol, trwy dargedu gweithredu lleol, cymunedol ar y cymunedau mwyaf difreintiedig i gynyddu sgiliau a pha mor gyflogadwy yw'r bobl ac i wella'r amodau ar gyfer busnesau.

Mae'r flaenoriaeth yn canolbwyntio ar 3 prif thema:

- meithrin gallu pobl o bob cefndir a chymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol i gyfrannu at adfywiad economaidd a chael budd ohono.
- cefnogi mentrau sy'n cael eu harwain gan y gymuned sy'n cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd ac ymdrin â'r materion gwaelodol sy'n atal datblygiad economaidd cynaliadwy
- gwella cyfleoedd a gwasanaethau mewn meysydd ymylol, yn benodol, hyrwyddo rôl mentrau cymdeithasol wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Mae'r Flaenoriaeth yn cynnwys 4 mesur:

- Gweithredu cymunedol dros gynhwysedd cymdeithasol (ESF).
- Partneriaeth a meithrin gallu cymunedol (ERDF): 2000-2003.
- Partneriaeth a Meithrin Gallu Cymunedol ac Adfywio ardaloedd difreintiedig trwy weithredu a arweinir gan y gymuned (ERDF).
- Cefnogi Creu a Datblygu Busnesau yn yr Economi Gymdeithasol (ERDF).

Yn ôl gwefan WEFO<sup>3</sup>, roedd 310 prosiect wedi eu hariannu trwy Flaenoriaeth 3 ar 11 Rhagfyr 2006. Cyfanswm gwerth y prosiectau hyn oedd £115,556,901; cyfartaledd o £372,764 i bob prosiect.

---

<sup>3</sup> <http://www.wefo.wales.gov.uk/>



**Mae Blaenoriaeth 3 yn cyfrif am tua 20% o'r cyllid sydd ar gael dan y rhaglen Amcan 1 gyfredol.**

### Amcan 2

Nod cyffredinol Amcan 2 Dwyrain Cymru a'r Rhaglen Drosiannol yw sicrhau cynnydd mewn twf economaidd yn Nwyrain Cymru. Ei hamcanion allweddol yw cynyddu twf mewn cyflogaeth ar draws y rhanbarth, hyrwyddo arallgyfeirio economaidd yn y rhanbarth a datblygu cymunedau cynaliadwy. Mae'r Rhaglen yn derbyn cefnogaeth o'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (ERDF). Yr ardaloedd sy'n cael eu cynnwys yn y Rhaglen Amcan 2 yw rhannau o Gaerdydd, Casnewydd a Phowys. Yr ardaloedd sy'n cael eu cynnwys yn y Rhaglen Drosiannol yw rhannau o Bowys, Caerdydd, Casnewydd, Wrecsam, Sir Fynwy a Bro Morgannwg.

Mae'r Rhaglen wedi ei llunio o amgylch 3 Blaenoriaeth, pob un ohonynt yn canolbwyntio ar faes o weithgaredd economaidd gyda photensial am ddatblygiad a thwf. Sef:

- Blaenoriaeth 1: Datblygu Busnesau Bach a Chanolig Cystadleuol a Chynaliadwy.
- Blaenoriaeth 2: Datblygu Gwledig Cynaliadwy.
- Blaenoriaeth 3: Adfywio Cymunedol Trefol.

Anelwyd elfennau o Flaenoriaeth 2 a Blaenoriaeth 3 o'r rhaglen ar gefnogi 'adfywio cymunedol' ar ryw lefel.

Mae Blaenoriaeth 2 yn cynnwys dau fesur 'datblygu economaidd gwledig' a 'llunio rhwydweithiau' sydd â'r amcanion:

- Cefnogi a hyrwyddo mentrau sy'n cynyddu mynediad at wasanaethau allweddol ac sy'n gwella'r ddarpariaeth.
- Datblygu'r gwasanaethau hyn mewn a rhwng cymunedau i fod yn sail i dwf economaidd cynaliadwy.
- Cynyddu'r cyfoeth sy'n cylchdroi a lleihau colled economaidd.

Mae Blaenoriaeth 3 yn canolbwyntio ar bedair prif thema:

- Cynyddu capasiti preswylwyr a grwpiau, datblygu eu gallu i chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau.
- Datblygu'r economi cymdeithasol i greu cyfleoedd cyflogaeth lleol na fyddai ar gael fel arall a chyfrannu at dwf economaidd.
- Cefnogi datblygiad rhwydweithiau gweithredol a ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth.
- Yr angen am weithredu penodol i ymdrin ag allgauedd cymdeithasol trwy gael grwpiau lleiafrifol i gymryd rhan yn y broses adfywio. Rhaid i weithgareddau adfywio cymunedol ddangos bod pob adran, grŵp oedran a diwylliant yn y gymuned yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau cynllunio a llunio penderfyniadau.



Yn ôl gwefan WEFO, ar 11 Rhagfyr 2006, roedd y rhaglen wedi cefnogi:

	Nifer y prosiectau	Cyfanswm y Grant	Cyfartaledd y grant i bob prosiect
Amcan 2, Blaenoriaeth 2	42	£11,882,352	£282,913.14
Amcan 2, Blaenoriaeth 3	41	£11,846,935	£288,949.63
Amcan 2 (trosiannol), Blaenoriaeth 2	35	£4,699,845	£134,281.29
Amcan 2 (trosiannol), Blaenoriaeth 3	31	£7,931,671	£255,860.35

### Amcan 3

Mae Amcan 3 yn anelu at fwydro yn erbyn diweithdra tymor hir a chynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef allgauedd cymdeithasol; mae'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, y gallu i addasu ac entrepreneuriaeth yn y gweithlu; ac yn gwella hyfforddiant, addysg a chynghori ar gyfer dysgu gydol oes. Mae'r rhaglen hon yn gweithredu ym mhob ardal tu allan i ranbarth Amcan 1.

### Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000 - 2006

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) yn darparu peirianwaith i gefnogi datblygu cynaliadwy yn y Gymru wledig. Mae'r Cynllun wedi ei seilio ar ddeng mesur posibl, gan gynnwys amaeth-amgylcheddol, cefnogaeth i ardaloedd llai ffafriol, addasu a datblygu cymunedau gwledig yn ehangach, a phrosesu a marchnata cynnyrch amaethyddol.

Erthygl 33 yw'r rhan fwyaf perthnasol o'r Cynllun Datblygu Gwledig sy'n cynnig rhestr o gamau posibl i hyrwyddo addasu a datblygu ardaloedd gwledig.

Ar 26 Tachwedd 2002, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru raglen ddatblygu yn defnyddio tri mesur o Erthygl 33, a fydd yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig yn Nwyrain Cymru tu allan i Amcan 2.

Daeth awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol ym Mhowys, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Wrecsam at ei gilydd i ffurfio partneriaethau datblygu ar gyfer yr ardaloedd hynny. Y partneriaethau hyn sy'n gyfrifol am lunio Cynlluniau Gweithredu ar gyfer eu hardaloedd sy'n eu galluogi i gael mynediad at gyllid dan ddarpariaethau Erthygl 33 yng Nghynllun Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol a anelwyd at hyrwyddo addasu a datblygu Cymru wledig.

Y camau dan sylw yw:

- Darparu gwasanaethau sylfaenol i'r economi a'r boblogaeth wledig.
- Adnewyddu a datblygu pentrefi a gwarchod a chadw'r etifeddiaeth wledig.
- Annog gweithgareddau twristaidd a chreffft.

Yn ôl gwefan y Cynulliad, hyd yn hyn mae dros 100 prosiect wedi cael eu cymeradwyo gyda chyfanswm gwerth o ychydig dros £7.6m. Mae hyn yn

cynrychioli cyfanswm grant o bron i £5.2m. Dylid nodi bod y tîm gwerthuso yn amau nad yw'r wybodaeth hon yn gyfredol gan fod y rhaglen wedi cau erbyn hyn, gan ddod i ben yn Rhagfyr 2006.

### LEADER+

LEADER+ yw un o raglenni cymuned yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n ceisio hyrwyddo datblygiad ardaloedd gwledig. Ei nod yw annog a helpu gweithredwyr gwledig i feddwl am botensial eu hardaloedd yn y tymor hir. Mae'n ceisio annog gweithredu strategaethau integredig, o ansawdd uchel, gwreiddiol ar gyfer datblygu cynaliadwy ar sail dulliau blaengar o ddatblygu gwledig.

Yn dilyn proses fidio gystadleuol, dyfarnwyd statws Grŵp Gweithredu Lleol LEADER+ i saith sefydliad yng Nghymru:

- PLANED (ardaloedd gwledig Sir Benfro)
- Glasu (ardaloedd gwledig Powys)
- Menter Môn (ardaloedd gwledig Ynys Môn)
- Cadwyn Clwyd (ardaloedd gwledig Sir Ddinbych a Sir y Fflint)
- Adventa (ardal wledig Sir Fynwy)
- Conwy Wledig
- Northern Marches – Cymru (ardal wledig Wrecsam)

Grwpiau targed y rhaglen yw:

- Busnesau bach a micro (sy'n cynnwys ffermydd)
- Teuluoedd fferm
- Y rhai sy'n cael eu tangyflogi
- Cymunedau sy'n siarad Cymraeg
- Pobl ifanc
- Menywod

### **Cronfeydd Strwythurol 2007 – 2013**

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 ar y gweill ers talwm. Am y cyfnod 2007-2013 bydd Cymru yn cael budd o rownd newydd o Raglenni Cronfa Strwythurol Ewrop.

Dan gytundeb cyllideb y Cyngor Ewropeaidd, mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn debygol o dderbyn tua £1.3 biliwn dros saith mlynedd i gefnogi *Rhaglen Gydygyfeirio* newydd. Bydd Dwyrain Cymru yn gymwys ar gyfer *Rhaglen Gyflogaeth a Gallu i Gystadlu Ranbarthol* newydd. Bydd Cymru hefyd yn parhau i gymryd rhan mewn olynydd i'r rhaglen *INTERREG* dros y ffin gydag Iwerddon, yn ogystal â'r *Rhaglenni Traws Genedlaethol Ardal Môr Iwerydd a Gogledd Orllewin Ewrop*. Rhagwelir y bydd y dyraniadau ar gyfer y rhaglenni hyn yn cymryd rhai misoedd i'w pennu.

Bydd y rhaglenni newydd yn canolbwyntio ar ymyraethau sy'n cefnogi twf cynaliadwy a swyddi, yn unol â strategaethau Lisbon a Gothenberg. Mae *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol* y DU yn cynnig fframwaith cyffredinol ar gyfer y rownd newydd o Raglenni Cronfa Strwythurol ac fe'i lanswyd i ymgynghori arno ar 28 Chwefror 2006. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys pennod benodol ar Gymru yn nodi dadansoddiad o'r sialensiau economaidd sy'n wynebu'r wlad a sut y gall y Cronfeydd Strwythurol helpu i ymdrin â nhw.

Mae Pennod Gymreig y Fframwaith Strategol yn cynnig fframwaith eang i helpu i arwain y Rhaglenni Gweithredol mwy manwl a fydd yn gweithredu yng Nghymru. Cynigir cael rhaglenni ERDF ar wahân i Orllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru a rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i Gymru gyfan (gyda dyraniadau wedi eu neilltuo ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd). Bydd rhaglen draws-ffiniol ar wahân rhwng rhannau o Ogledd a De Orllewin Cymru a De Dwyrain Iwerddon. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gael nifer fwy cyfyngedig o flaenoriaethau i bob rhaglen a fydd yn cynnig hyblygrwydd ychwanegol wrth eu gweithredu ac a ddylai gynorthwyo i ddefnyddio adnoddau.

Y blaenoriaethau a gynigir ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw:

1. Gwella gwybodaeth a blaengaredd er mwyn creu twf - gan gynnwys Ymchwil a Datblygu, entrepreneuriaeth, cyllid busnes a datblygiad sectoraidd. (ERDF).
2. Creu amgylchedd busnes ffafriol – gan gynnwys trafndiaeth, TGC, ynni glân ac adnewyddol, nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, gwarchod a gwella'r amgylchedd, gwastraff, dyfrffyrdd mewnol a morol (ERDF).
3. Adeiladau cymunedau cynaliadwy – gan gynnwys safleoedd busnes, adfywio trefol a gwledig a datblygu cymunedol (ERDF).
4. Cynyddu cyflogaeth ac ymdrin â diffyg gweithgarwch – gan gynnwys ymdrin â rhwystrau sy'n atal cyflogaeth, gofal plant, hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal (ESF).
5. Gwella lefelau sgiliau – gan gynnwys trosglwyddo o'r ysgol i'r gwaith, gwella sgiliau sylfaenol ac ymdrin â bylchau mewn sgiliau. (ESF).
6. Meithrin gallu gweinyddol ein gwasanaethau cyhoeddus – gan gynnwys datblygu adnoddau dynol a mentrau meithrin gallu yng nghyd-destun y Strategaeth Creu'r Cysylltiadau (ESF).

Fel y nodwyd o'r blaen, mae Blaenoriaeth 3 (Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy) yn cyfrif am tua 20% o'r arian sydd ar gael dan y rhaglen Amcan 1 gyffredol. Mae'r ddogfen ymgynghorol ar y rhaglen newydd arfaethedig yn nodi bod "peth gostyngiad" yn y gyfran o'r gwariant ar y flaenoriaeth hon gan na fydd yn cyfrannu at dargedau 'clustnodi' Lisbon. Nododd WEFO hefyd yn ystod eu cyflwyniad mewn digwyddiadau ymgynghorol a gynhaliwyd ar draws Cymru y bydd y rhaglen newydd yn cynnwys "*llai o fuddsoddi mewn adfywio cyffredinol trefol, gwledig a chymunedol a chamau ymyrraeth cymdeithasol nad ydynt yn canolbwyntio ar gyflogaeth*".

Mae'r blaenoriaethau a awgrymir ar gyfer Dwyrain Cymru yn fwy cyfyngedig yn eu ffocws ac maent yn gysylltiedig â:

- Adeiladu'r economi ar sail gwybodaeth – canolbwyntio'n bennaf ar Ymchwil a Datblygu a blaengaredd (ERDF).
- Gwella'r amgylchedd – yn cynnwys adfywio cymunedol, ynni glân ac adnewyddadwy, nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, gwarchod amgylcheddol a gwelliannau a rheoli gwastraff (ERDF).
- Hyrwyddo hygyrchedd – yn cynnwys mentrau trafndiaeth integredig a TGC (ERDF).
- Cynyddu cyflogaeth ac ymdrin â diffyg gweithgarwch (yr un peth ag ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (ESF).
- Gwella lefelau sgiliau (yn debyg i Orllewin Cymru a'r Cymoedd ond rhagor o bwyslais ar hyfforddiant yn cael ei arwain gan y galw a systemau hyfforddi) (ESF).

### Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013

Mae Rheoliad Comisiwn 1698/2005 yn darparu fframwaith i Aelod Wladwriaethau ar gefnogi datblygu gwledig trwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ar gyfer y cyfnod rhaglennu nesaf 2007-2013. Yn y rheoliad, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi pedwar prif amcan (echelin) ar gyfer polisi datblygu gwledig ar gyfer y cyfnod 2007-13 i sicrhau datblygiad cynaliadwy i ardaloedd gwledig:

- ECHELIN 1: Cynyddu gallu'r sector amaethyddol i fod yn gystadleuol trwy ailstrwythuro.
- ECHELIN 2: Gwella'r amgylchedd a chefn gwlad trwy gefnogi rheolaeth tir.
- ECHELIN 3: Gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig a hyrwyddo arallgyfeirio gweithgareddau economaidd trwy fesurau sy'n targedu'r sector fferm a gweithredwyr gwledig eraill.
- ECHELIN 4: Gwella'r defnydd o'r dull LEADER sy'n cynnig dull sy'n cychwyn o'r gwreiddiau ac yn cael ei yrru gan y gymuned trwy ddefnyddio partneriaethau lleol i fod yn sail i weithredu'r tair echelin arall.

Yn yr echelinau, mae 34 'mesur' sy'n llunio rhestr eang o'r math o weithgareddau y mae'n bosibl eu hariannu trwy Gynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru. Gall y mesurau gyfrannu at fwy nag un echelin yn y rheoliad a'r Strategaeth Genedlaethol a rhaid i'r Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru gael ei lunio o'u cwmpas er nad oes raid eu defnyddio i gyd.

## Casgliadau


Mae'r adolygiad a gynhaliwyd yn dynodi'n glir bod adfywio cymunedau yn flaenoriaeth strategol uchel yng Nghymru. Mae cyfeiriad at ddatblygu "cymunedau cryf" mewn llu o ddogfennau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn bwysig felly, rhai'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn ddiddorol, nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd bod CFAP yn rhaglen boblogaidd ar draws y pleidiau gwleidyddol ym Mae Caerdydd.

Mae'r galw am arian CFAP yn anhygoel o uchel. Mae'r rhaglen hefyd yn 'gronfa'r cyfle olaf'. Mae hyn yn golygu bod y prosiectau sy'n gwneud cais i CFAP am arian yn annhebygol o fedru cael mynediad at arian o ffynonellau eraill.

**Byddem yn dadlau bod hyn yn dangos yr angen am y math o arian a ddarperir gan CFAP yn fawr. Felly, gallwn gasglu bod gan CFAP rôl allweddol wrth ddarparu gweledigaeth y Cynulliad am “gymunedau cryf”.**

Gall y newidiadau yn y blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol o 2007 gael oblygiadau sylweddol i CFAP, gan y bydd, o bosibl yn dod yn gronfa'r cyfle olaf i brosiectau a gweithgareddau a fyddai cynt wedi cyflwyno eu ceisiadau i raglenni a gefnogir gan y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Gall hefyd arwain at gynnydd yn y nifer o geisiadau a gyflwynir i CFAP gan gyrff 'proffesiynol' sy'n ceisio darparu gwasanaeth i'r cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw. Gall hyn eto gael oblygiadau i CFAP.

## Atodiad 2: Dehongliad o Broses Reoli CFAP



## Atodiad 3: Dadansoddiad Manwl o'r Arolwg o Fudd-ddeiliaid Prosiectau

---

Gosodwyd yr holiadur mewn adrannau ar wahân a gyfeiriwyd at unigolion yn ôl eu perthynas â'r prosiect. Nid yw'r adran hon yn dilyn y dull hwnnw ond mae'n cyflwyno'r data mewn ffurf sy'n cyfateb i broses CFAP; mae'n cychwyn trwy ddynodi'r angen am y prosiect ac yna gan adolygiad o'r broses ymgeisio ac yn olaf, rhyw amcan o'r effeithiau. Pan fydd hynny'n addas, dangosir barn y budd-ddeiliaid amrywiol ar bob cam.

### Cyffredinol

Derbyniwyd cyfanswm o 320 o ymatebion wedi eu llenwi erbyn y dyddiad cau (3ydd Tachwedd 2006). Roedd y sampl yn cynnwys 37 ymateb (11.6% o'r cyfanswm) gan weithwyr proffesiynol oedd yn ymwneud â phrosiect, 148 (46.3%) gan weithwyr heb fod yn broffesiynol oedd yn ymwneud â rheoli'r prosiect, 166 (51.9%) defnyddiwr y cyfleusterau a ddarparwyd, 18 (5.6%) gan weithwyr proffesiynol yn defnyddio'r cyfleusterau i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned ac 20 (6.3%) gan bobl yr oedd eu busnes wedi ei leoli yn y cyfleuster. Wrth gwrs, gan fod y cyfanswm yn uwch na 100%, mae unigolion sydd â sawl rôl. Er enghraifft roedd tua 16% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r cyfleusterau ac yn aelodau o bwyllgor neu dîm rheoli; mae bron i 17% yn ddefnyddwyr ac yn aelodau o bwyllgor. Roedd gan yr ymatebwyr arferol 2 rôl er bod gan gyfran sylweddol fwy na hynny (gweler Tabl 1).

**Tabl 1: nifer o rolau gan unigolion**

Nifer o rolau	% o'r ymatebwyr
1	7.8
2	19.4
3	12.8
4	4.1
5	1.6
6	0.3
7	0.3

Dyma ganlyniad y sampl oedd yn cynnwys defnyddwyr ac unigolion â gwybodaeth oedd yn ymwneud â'r prosiectau; mae'n cynnwys y rhai â sawl rôl, y rheolwyr, y gweithwyr proffesiynol ac yn y blaen. Pan fydd angen hynny defnyddir yr is-samplau (e.e. defnyddwyr yn unig) yn yr adrannau canlynol.

### Dynodi'r Angen

Rhyw ffurf ar gymhelliant neu ymwybyddiaeth o angen yw cam cyntaf unrhyw brosiect. Gofynnwyd i ddefnyddwyr y cyfleuster sut yr oeddynt wedi dynodi'r angen (Tabl 2).

O safbwynt cefnogi cymunedau mae'r canlyniadau'n galonogol: trafod yr angen am gyfleusterau newydd/gwell yw'r dechreuadau mwyaf cyffredin ar gyfer prosiectau,



sy'n cael ei ddilyn gan wybodaeth yn cael ei thaenu ar lafar trwy ffrindiau a theulu. Mae 'arall' yn cynnwys aelodau pwyllgor grwpiau sy'n bodoli a gwirfoddolwyr/gweithwyr proffesiynol yn gweithio yn y gymuned mewn rôl anuniongyrchol (e.e. trysorydd canolfan gymunedol)

**Tabl 2: Ymateb i C12 "Sut wnaethoch chi glywed gyntaf am y prosiect?"**

Datganiad	% o ddefnyddwyr
Fe wnes i drafod problem cyfleuster oedd yn bodoli gydag eraill	36.7
Fe wnes i drafod yr angen am gyfleuster gydag eraill	37.3
Fe welais i adroddiad ar y cyfryngau amdano	4.8
Dywedodd ffrindiau/teulu wrthyf amdano	18.1
Cymerais ran mewn arolwg	7.2
Clywais amdano fel rhan o fy rôl swyddogol yn y gymuned	13.9
Cychwynnodd pobl eraill ddeiseb/ymgyrch i gael cyfleuster newydd	9.0
Arall	21.7

Roedd y mwyafrif o'r defnyddwyr wedi cael gwybod am yr angen o 2 ffynhonnell (Tabl 3) sy'n awgrymu bod rhywfaint o ryngweithio yn y gymuned.

**Tabl 3: Nifer o gymhelliannau**

Nifer	% o ddefnyddwyr
1	2.4
2	67.5
3	18.1
4	6.0
5	3.6
6	1.8
7	0.6

Ychydig o bobl a gymerodd ran mewn arolwg (7.2%). Byddai hyn yn awgrymu mai ychydig o ddynodi angen yn ffurfiol sy'n digwydd ond nid yw'n glir oddi wrth hyn a yw oherwydd cyfathrebu anffurfiol da neu fod yr ymgynghori'n gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn awgrymu nad oedd angen rhagor o ymgynghori (Cwestiwn 16); dim ond 2.4% o'r defnyddwyr oedd yn meddwl y dylid cael rhagor o ymgynghori (Tabl 4).

**Tabl 4: Ymateb i Gwestiwn 16c "Dylid fod wedi cael rhagor o ymgynghori â'r gymuned"**

Ymateb	% o ddefnyddwyr
cytuno	2.4
ddim yn cytuno nac anghytuno	12.0
anghytuno	53.0
ddim yn berthnasol	7.8
heb ateb	24.7

Efallai bod awgrym o'r canlyniadau hyn bod cymunedau sydd eisoes â strwythur cydlyn yn fwy tebygol o ddynodi'r angen; mae grwpiau a strwythurau cymdeithasol sy'n bodoli yn elfennau pwysig yn y broses. Er nad yw o fewn cylch gorchwyl CFAP, gall peth meithrin gallu helpu'r cymunedau hynny sydd â llai o strwythur i gael ymnediad at adnoddau CFAP

Archwiliwyd y mater o ddynodi angen o safbwynt unigolion nad ydynt yn broffesiynol sy'n ymwneud â rheoli'r prosiectau. Eto, mae hyn yn awgrymu rhywfaint o weithgaredd cymunedol; roedd bron i 43% yn aelodau o grŵp oedd yn bodoli a bron i ddwy ran o dair yn meddwl nad oedd y cyfleusterau oedd yn bodoli yn ddigonol (Tabl 5).

**Tabl 5: Ymateb i C19 “Sut wnaethoch chi ddynodi'r angen am y prosiect?”**

Ymateb	% o swyddogion digyflog
...oherwydd fy mod yn aelod o grŵp neu glwb sy'n bodoli sydd angen cyfleusterau	42.6
Cyfleusterau cyfredol ddim yn ddigonol	62.8
Pobl yn cwyno am ddiffyg cyfleuster	43.2
Roeddem yn ymwybodol o'r manteision yr oedd eraill wedi eu cael trwy CFAP	22.3
Arall	12.2

Mae'n amlwg bod yr angen a ddiwellir yn un lleol (Tabl 6): dynododd dros 66% mai pobl leol a'r defnyddwyr cyfredol cyson oedd y buddiolwyr. Roedd archwiliadau'n llai amlwg ond yn dal yn arwyddocaol, roedd tua un rhan o bump wedi dynodi defnyddwyr posibl yn y ffordd hon.

**Tabl 6: Ymateb i C20 “Sut wnaethoch chi ddynodi defnyddwyr posibl y cyfleuster?”**

Ymateb	% o swyddogion digyflog
Roedd gennym aelodau/defnyddwyr cyson eisoes	68.9
Byddai o fudd i bobl leol	66.2
Cynhaliwyd archwiliad	20.3
Roedd rhai problemau yr oeddem am ymdrin â nhw yn ein cymuned	28.4

Mae'n ymddangos bod yr ymgynghori ar un o ddwy ffurf, cyfarfod cyhoeddus a phleidlais (33.8%) neu arolwg o'r gymuned (40.5%). Roedd mwy na hanner y prosiectau wedi ffurfio pwyllgor rheoli.

**Tabl 7: Ymateb i C21 “Sut wnaethoch chi ymgynghori â defnyddwyr y gymuned?”**

Ymateb	% o swyddogion digyflog
Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd cymunedol a chael pleidlais	33.8
Fe wnaethom ffurfio pwyllgor rheoli	54.1
Fe wnaethom gynnal arolwg o'n cymuned	40.5
Roedd archwiliad wedi ei gynnal	8.1
Nid oedd raid i ni ymgynghori â'r gymuned	9.5

Efallai ei bod yn syndod bod cyfran fawr o gymunedau wedi medru trefnu cyfarfodydd a phleidlais (33.8%). Mae'n ymddangos hefyd, bod rhywfaint o anghysondeb; mae dros 40% o'r prosiectau yn honni eu bod wedi cynnal arolwg (Tabl 7) ac eto dim ond 7% o'r defnyddwyr sy'n honni eu bod wedi cymryd rhan mewn un (Tabl 2). Yn yr un modd mae 20.3% yn honni bod archwiliad wedi ei wneud (Tabl 6) ond dim ond 8.1% oedd yn gwybod am archwiliad blaenorol (Tabl 7). Nid yw'r rhesymau am hyn yn glir.

Tra bod y targedu lleol yn glir ac effeithiol efallai bod angen sicrhau bod tystiolaeth o ymgynghori â'r gymuned o ansawdd addas.

### Proses ymgeisio

Roedd dau grŵp penodol yn ymwneud â'r broses ymgeisio; aelodau di-gyflog a gweithwyr proffesiynol. Dyluniwyd y broses ymgeisio gyda chymunedau (h.y. rhai amhroffesiynol) mewn golwg.

### Gweithwyr Amhroffesiynol

Mae dyluniad y broses ymgeisio yn ymddangos yn llwyddiannus iawn wrth ymdrin ag anghenion yr ymgeisydd nad yw'n broffesiynol (Datganiad A). Anelwyd y dyluniad at symlrwydd, eglurder, a'r lleiaf posibl o ofynion ar adnoddau'r ymgeisydd pan fydd hynny'n bosibl, er bod hyn wedi bod yn broblem wrth ddyrannu adnoddau LICC, ansawdd yr adborth a chefnogaeth. Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod yr amcanion hyn wedi eu cyflawni (Tabl 8).


**Tabl 8: Ymateb gan aelodau amhroffesiynol i C22 “Beth oedd eich profiad o'r broses ymgeisio ar gyfer CFAP”**

	Datganiad	Ymateb (fel % o'r aelodau amhroffesiynol oedd yn ymateb i'r datganiad)				Heb ateb (fel % o'r holl aelodau amhroffesiynol)
		Cytuno	Naill na'r llall	Anghytuno	Ddim yn berthnasol	
A	Syml a hawdd	62.6	17.8	15.0	4.7	27.7
B	Peth anhawster, fe gymerodd fwy nag un ymgais	29.3	8.7	42.4	19.6	37.8


C	Gan ein bod yn ei gael mor anodd fe wnaethom ni ddefnyddio gweithwyr proffesiynol	13.1	15.2	44.4	27.3	33.1
D	Staff LICC o gymorth	73.7	11.1	2.0	13.1	33.1
E	Byddai o gymorth penodi swyddog achos ar gyfer pob prosiect	46.5	33.3	7.1	13.1	33.1
F	Adborth gan staff LICC yn ddefnyddiol	56.6	27.3	3.0	13.1	33.1
G	Ffurflenni cais yn peri dryswch	10.5	28.4	52.6	8.4	35.8
H	Gofyn am ormod o wybodaeth gan gorff bach fel ein un ni	18.4	24.5	49.0	8.2	33.8
I	Roedd y broses ymgeisio yn rhy gymhleth	8.1	25.3	58.6	8.1	33.1
J	Byddai'n well gennym fod wedi cael ein cynrychioli ein hunain mewn cyfweiliad yn hytrach na llenwi'r ffurflenni	18.4	22.4	49.0	10.2	33.8
K	Teimlwn, fel corff bach na ddylem gystadlu â'r grwpiau mwy proffesiynol	15.3	16.3	56.1	12.2	33.8
L	Nid oeddem yn sylweddoli ei bod yn gystadleuaeth am arian	10.4	14.6	65.6	9.4	35.1
M	Nid oedd digon o arweiniad ar y dechrau	11.5	19.8	61.5	7.3	35.1
N	Roeddem yn cael gwybodaeth oedd yn croes ddweud ei gilydd weithiau	8.3	12.5	69.8	9.4	35.1
O	Nid oedd y cwestiynau ar y ffurflen gais yn rhoi cyfle i ni esbonio manteision ein prosiect yn llawn	13.4	11.3	68.0	7.2	34.5

Dangosir barn yr aelodau amhroffesiynol yn y ffigyrau isod. Mae'n amlwg iawn pan fydd ateb 'cytuno' yn cael ei roi bod y broses yn cael ei hystyried yn ffafriol ei bod wedi ei chyflawni (Ffigwr 1).

**Ffigwr 1: Ymateb i C22 a, d & f (cytuno yn well)**




**Ffigwr 2: Ymateb i C22 b, c, g, h, i, j (anghytuno yn well)**



Yn yr un modd pan fydd ‘anghytuno’ yn dynodi rhwystrau neu gyfyngiadau ar y broses, mae hyn hefyd wedi ei gyflawni. Er enghraifft mae 68% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad “nid oedd y cwestiynau ar y ffurflen gais yn caniatáu i ni esbonio manteision ein prosiect yn llawn”. Dim ond yr ymateb i “peth anhawster, fe gymerodd fwy nag un tro” sy'n dangos rhyw arwydd o lai na chytundeb unfrydol, bu raid i bron i 30% o'r prosiectau wneud mwy nag un cais cyn iddynt fod yn llwyddiannus.

**Ffigwr 3: Ymateb i C22 k, l, m, n & o (anghytuno yn well)**



Mae ansawdd y gwasanaeth yn parhau wedi gorffen y broses ymgeisio; mae'r patrwm o gytuno â datganiadau positif ac anghytuno â rhai negyddol yn cael ei ailadrodd (Tabl 9).

**Tabl 9: Ymateb i C23 "Beth oedd eich profiad wedi i'ch cais gael ei gymeradwyo?"**

Datganiad	Ymateb (fel % o'r aelodau amhroffesiynol oedd yn ymateb i'r datganiad)				Heb ei ateb (fel % o'r holl aelodau amhroffesiynol)
	Cytuno	Ddim yn naill na'r llall	Anghytuno	Ddim yn berthnasol	
Roedd staff LICC yn barod i helpu pan gawsom broblemau heb eu rhagweld	54.1	17.4	0.9	27.5	26.4
Roeddem yn disgwyl mwy o help a chefnogaeth gan LICC	3.2	20.2	55.3	21.3	36.5
Roedd y taliadau ar amser bob amser	79.8	5.5	1.8	12.8	26.4
Fe ddaethom ar draws problemau yr ydym yn meddwl y dylai gweinyddwyr LICC fod wedi eu rhagweld	2.2	20.7	50.0	27.2	37.8
Dim problemau	73.5	8.8	2.9	14.7	31.1

Mae'r taliadau a'r cymorth gan staff LICC wrth ymdrin â phroblemau na ragwelwyd yn haeddu eu crybwyll yn arbennig, dim ond 1.8% o'r ymatebwyr sydd yn cael taliadau nad ydynt ar amser am dim ond 0.9% oedd yn gweld staff LICC yn ddim cymorth.

Mae ansawdd y gwasanaeth yn ystod ac ar ôl y broses ymgeisio yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan yr ymgeiswyr amhroffesiynol. Ond, o ganlyniad mae gweinyddwyr yn dioddef oherwydd y galwadau eithafol mae hyn yn ei greu. Gwaethygir y sefyllfa gan natur y gronfa; dyma'r dewis olaf sydd ar gael. Wedi iddynt gael eu gwrthod, does gan ymgeiswyr fawr o ddewis ond ail-ymgeisio i CFAP. Felly mae'n hanfodol i ymgeiswyr posibl gael eu cyfeirio tuag at wasanaethau priodol (help proffesiynol, meithrin gallu, partneriaid addas ac yn y blaen) cyn gwneud cais. Tra bod hyn yn annhebygol o newid y gyfradd llwyddiant (o ystyried bod yr arian wedi ei bennu) bydd yn lleihau'r galw ar weinyddwyr CFAP trwy sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu darparu gan gyrrff addas.

### Gweithwyr Proffesiynol

Mae gan weithwyr proffesiynol ddwy rôl yn CFAP; cefnogi ymgeiswyr o gymunedau trwy ddarparu sgiliau a gwasanaethau ac, yn gynyddol, fel ymgeiswyr eu hunain. Trafodir un corff felly o leiaf yn yr astudiaethau achos; gall y cyrff yma weithio ar ran y gymuned neu weithredu fel darparwr cyllid i brosiectau bach.

Parthed rôl gyntaf y gweithwyr proffesiynol, cefnogi ceisiadau gan gymunedau, rhoddir peth cefnogaeth i symlrwydd a rhwyddineb y ffurflen gais (Tabl 10). Roedd llai na 15% o weithwyr proffesiynol yn ymwneud ag ysgrifennu'r cais. Roedd y gwasanaethau proffesiynol i raddau helaeth yn gyngor ar faterion technegol (26.5%), tystiolaeth gefnogol (23.5%) ac ar faterion ariannol (17.6%). Ychydig o brosiectau sydd wedi galw ar gyngor cyfreithiol (2.9%). Cynhwysir gwasanaethau proffesiynol fel y rhai a ddarperir gan adeiladwyr a thrydanwyr yn y categori 'arall'.

Pan fydd rheoli cais o gyfnod cynnar hyd ei chwblhau yn digwydd mae'r prosiectau yn bennaf yn bartneriaethau rhwng awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol; darperir y gwasanaethau proffesiynol gan yr awdurdod lleol.

**Tabl 10: Ymateb i C27 "Beth oedd eich rôl?"**

Ymateb	% o weithwyr proffesiynol
Ysgrifennu ffurflen gais yn unig	14.7
Rheoli'r cais o'r cyfnod cynnar hyd ei gwblhau	35.3
Rhoi cyngor/mewnbwn ar faterion technegol	26.5
Rhoi cyngor/mewnbwn ar faterion cyfreithiol	2.9
Rhoi cyngor/mewnbwn ar faterion ariannol	17.6
Rhoi cyngor/mewnbwn ar dystiolaeth gefnogol	23.5
Arall	26.5



Mae mwyafrif y gweithwyr proffesiynol yn cyflawni mwy nag 1 rôl, mae bron i 90% yn cyflawni dwy rôl neu fwy.

**Tabl 11: Nifer rolau gweithwyr proffesiynol**

Nifer	% o'r gweithwyr proffesiynol
1	8.1
2	59.5
3	24.3
4	5.4
5	2.7

Mae'r ymateb i gwestiwn 28 (Tabl 12) yn tystio i ansawdd y gefnogaeth a gynigir gan staff CFAP; ychydig o'r gweithwyr proffesiynol oedd yn cael eu cyflogi i ymdrin â phroblemau gyda cheisiadau blaenorol. Ymhellach mae'r rhai amhroffesiynol wedi nodi bod y broses ymgeisio yn syml a hawdd. Byddai hyn yn awgrymu bod angen gwasanaethau proffesiynol ar gyfer materion heblaw'r broses ymgeisio. Felly mae'n ymddangos bod angen gweithwyr proffesiynol i gefnogi ar elfennau technegol tu allan i CFAP; fel y cyfryw mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau gweithwyr proffesiynol fel penseiri, trydanwyr ac eraill yn y diwydiant adeiladu. Mae'n amlwg y byddai angen y rhain o'r dechrau cyntaf. Ail ffurf ar weithiwr proffesiynol yw'r rhai sy'n cael secondiad i'r prosiect gan gyrff sy'n bartneriaid, awdurdodau lleol yn bennaf a chyrrff cefnogi cymunedol mwy.

**Tabl 12: Ymateb i C28 "Pam bod angen eich gwasanaethau?"**

Datganiad	% o weithwyr proffesiynol
Roedd yn amlwg cyn gwneud y cais i CFAP bod angen gwasanaethau proffesiynol	57.1
Daeth yn amlwg wedi cais cychwyn ar y cais i CFAP bod angen gwasanaethau proffesiynol	0.0
Roedd cais blaenorol wedi ei wrthod, fy rôl i oedd ymdrin â'r problemau yn y cais cyntaf	3.6
Cysylltodd y gymuned â'm cyflogwyr fel partner posibl yn y prosiect	14.3
Arall	28.6

Mae dros chwarter y gweithwyr proffesiynol yn nodi rhesymau eraill am eu hymwneud â'r prosiect. Yn bennaf mae'r rhain yn rhai 'technegol/cynghori' heblaw'r rhai a restrir yng Nghwestiwn 28; mae'r enghreifftiau'n cynnwys arbenigwr gofal plant ac ymgynghorydd busnes.

Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses ymgeisio yn cadarnhau barn 'syml a rhwydd' y rhai amhroffesiynol. Yn ychwanegol, yn y cyd-destun hwn mae'n cymharu'n ffafriol â ffynonellau ariannol eraill (Datganiadau A, B, C & E). Mae peth cefnogaeth ar gyfer penodi swyddogion achos (datganiad L), cyhoeddusrwydd ehangach i CFAP (K), gwasanaeth cyfeirio (I) a mynediad uniongyrchol i CFAP (H).

Maent yn fwy amwys ar gystadleuaeth rhwng prosiectau cymunedol a chyrrff proffesiynol (G) a rowndiau gyda themâu (J).

**Tabl 13: Ymateb gan weithwyr proffesiynol i C29**

Datganiad	Ymateb (fel % o'r gweithwyr proffesiynol a wnaeth ymateb i'r datganiad)				Heb ateb (fel % o'r holl aelodau proffesiynol)
	Cytuno	Ddim ynaill na'r lall	Anghytuno	Ddim yn berthnasol	
A Credaf na fyddai'r cais i CFAP wedi bod yn llwyddiannus heb help proffesiynol	53.1	21.9	9.4	15.6	13.5
B Mae gennyf beth profiad o geisiadau ariannu ac mae CFAP yn haws na'r mwyafrif	53.3	23.3	3.3	20.0	18.9
C Mae gennyf brofiad o geisiadau am arian ac mae CFAP yn anos na'r mwyafrif	9.7	29.0	41.9	19.4	16.2
D Dylai ymgeiswyr gael gwybod ar ddechrau'r broses ymgeisio y gall fod arnynt angen help proffesiynol	53.3	20.0	13.3	13.3	18.9
E Oherwydd bod CFAP yn darparu arian i ystod mor eang o brosiectau mae'n anodd deall am beth y mae'r bobl sy'n asesu eich cais yn chwilio	23.3	33.3	26.7	16.7	18.9
F Methodd cais blaenorol am arian CFAP ac er bod y prosiect heb newid, roedd ail gais wedi ei ysgrifennu'n well yn llwyddiannus	28.6	10.7	0.0	60.7	24.3
G Mae'n annheg bod prosiectau cymunedol yn gorfod cystadlu â chyrrff proffesiynol am yr arian sydd ar gael	38.7	22.6	29.0	9.7	16.2
H Dwi'n deall mai CFAP yw'r 'cyfle olaf' am arian ac felly mae'n medru cefnogi prosiectau na ellir eu hariannu gan raglenni eraill, mae'n afrealistig disgwyl i rai prosiectau fedru mynd trwy sawl cais i raglenni eraill cyn dod at CFAP	46.7	23.3	20.0	10.0	18.9

I	Mae angen gwasanaeth cyfeirio i ymgeiswyr droi at y rhaglen ariannu fwyaf addas	60.0	6.7	20.0	13.3	18.9
J	Dylai'r ystod eang o brosiectau a gefnogir gan CFAP gael eu parhau ond petai gan bob rownd thema byddai'n caniatáu cymariaethau tebyg at ei debyg tecach i brosiectau posibl	41.4	17.2	34.5	6.9	21.6
K	Dylai CFAP gael cyhoeddusrwydd mwy eang	40.0	33.3	20.0	6.7	18.9
L	Byddai o gymorth cael swyddog achos wedi ei benodi i bob prosiect	43.3	40.0	13.3	3.3	18.9

Mae gwahaniaeth clir rhwng gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i ffabrig y prosiectau (adeiladwyr sydd mewn ffordd yn gostau 'cyfalaf' er enghraifft) a'r rhai sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer y cais a gweinyddu'r prosiect. Mae'n ymddangos bod y rhai cyntaf yn rhoi cyngor technegol, ac mae'r ail yn rheoli'r cais. Yn amlwg mae materion cost a chystadleuaeth y gellid bod angen eu hystyried i gadw ethos cymunedol y rhaglen.

### Effeithiau

Defnyddir dau fesur i asesu effaith: newid yn y nifer o bobl sy'n defnyddio cyfleuster ac archwilio'r graddau y mae'r effeithiau tybiedig wedi digwydd. Dangosir swm y defnydd yn Tabl 14 ar gyfer defnyddwyr cyffredinol a Tabl 15 ar gyfer darparwyr gwasanaethau proffesiynol. Ond mae'r cynnydd hwn yn sylweddol ac mae'n ymddangos bod peth defnydd o'r newydd wedi digwydd. Mae bron i 8% o'r ymatebwyr heb erioed ddefnyddio'r cyfleuster yn gwneud hynny yn awr. Gall y rhif hwn fod yn rhy isel, mae cyfanswm y gostyngiad yn 'byth', 'yn anaml' a 'weithiau' yn llai na'r newid mewn defnydd 'cyson' sy'n awgrymu bod categorïau eraill o ddefnyddwyr yn defnyddio'r cyfleuster yn awr.


Gwelir effaith debyg, a rhywfaint o esboniad o'r cynnydd mewn defnydd efallai, yn yr ymateb gan y rhai sy'n defnyddio'r cyfleuster i ddysgu dosbarthiadau. Mae'r newidiadau, fel y gellid bod wedi rhagweld, oherwydd y gymhareb rhwng addysgwyr a'r rhai a ddysgir, sy'n llai nag ar gyfer defnyddwyr cyffredinol. Mae'r patrwm o newid, fodd bynnag, yn debyg: peth cynnydd mewn defnydd gan ddefnyddwyr blaenorol a lleihad yn y rhai nad oedd erioed wedi defnyddio'r cyfleuster cyn y prosiect.

**Tabl 14: Ymateb i C13/14 newid yn y defnydd o gyfleuster gan ddefnyddwyr cyffredinol**

Amllder	% o ddefnyddwyr		
	Defnydd yn awr	Defnydd cynt	newid
Yn gyson	69.9	44.0	25.9
Yn achlysurol	21.1	24.1	-3.0
Yn anaml	1.2	4.8	-3.6
Byth	7.8	15.7	-7.8

Mae cynnydd sylweddol mewn defnydd cyson, o 44% o ddefnyddwyr cyn y prosiect CFAP i 69.9% wedyn. Mae hyn yn cyd-fynd â gostyngiad dilynol mewn defnydd llai aml. Gellir disgwyl y newid hwn mewn prosiectau cymunedol lleol; mae pen draw ar y nifer o ddefnyddwyr posibl gan wneud defnyddwyr 'newydd' yn llai tebygol.

**Ffigwr 4: Cyfraddau defnydd mewn cyfleuster (defnyddwyr cyffredinol)**



Fodd bynnag mae'r cynnydd hwn yn sylweddol ac mae'n ymddangos fod peth defnydd o'r newydd wedi digwydd. Roedd bron i 8% o'r ymatebwyr oedd erioed wedi defnyddio'r cyfleuster yn gwneud hynny yn awr. Mae'n bosibl nad yw'r ffigwr hwn yn adlewyrchu'r newid yn llawn, mae swm y gostyngiadau yn 'byth', 'yn anaml' a 'weithiau' yn llai na'r newid mewn defnydd 'cyson' gan awgrymu bod defnyddwyr o gategoriâu eraill yn defnyddio'r cyfleuster yn awr.

Gwelir effaith tebyg, a pheth esboniad am y cynnydd mewn defnydd efallai, yn yr ymateb gan y rhai sy'n defnyddio'r cyfleuster i ddysgu dosbarthiadau. Mae'r newidiadau, fel y gellid bod wedi rhagweld, oherwydd y gymhareb o addysgwyr i'r rhai a ddysgir, yn hytrach na defnyddwyr cyffredinol. Mae'r patrwm o newid, fodd bynnag, yn debyg: peth cynnydd yn y defnydd gan ddefnyddwyr blaenorol a lleihad yn y rhai sydd erioed wedi defnyddio'r cyfleuster cyn y prosiect.

**Tabl 14: Ymateb i C13/14 newid mewn defnydd o'r cyfleuster gan addysgwyr**

Amllder	% o ddarparwyr gwasanaeth proffesiynol		
	Dysgu yn awr	Dysgu cynt	newid
Yn gyson	55.6	50	5.6
Yn achlysurol	0.0	5.6	-5.6
Yn anaml	5.6	0.0	5.6
Byth	38.9	44.4	-5.6

Gwelir effeithiau'r newidiadau yn y patrymau defnydd yn Tabl 16 isod. Cadarnheir y cynnydd mewn defnydd ar tua 73% yn meddwl bod rhagor o bobl yn defnyddio'r cyfleuster. Mae mwy na chwarter yr ymatebwyr yn gwneud gweithgareddau newydd, mae dros 16% wedi ymuno â grŵp neu glwb newydd ac mae mwy na thraean o'r bobl wedi gwneud ffrindiau newydd. Yn eu tro mae'r rhain wedi cael eu heffaith ar y gymuned gydag effaith amlwg ar ysbryd y gymuned.

**Tabl 15: Ymateb i C15 "Beth ydych chi'n feddwl y mae'r prosiect wedi ei gyflawni"**

Effaith	% o ddefnyddwyr sy'n adrodd am effaith
Rwyf yn gwneud rhai gweithgareddau newydd	27.1
Rwyf wedi ymuno â grŵp neu glwb newydd	16.3
Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd	36.1
Nid oes raid i mi deithio mor bell ar gyfer fy ngweithgareddau hamdden	18.1
Ysbryd cymunedol wedi gwella	53.6
Rhagor o bobl yn defnyddio'r cyfleuster gwell	72.9
Mae wedi cyflenwi angen clir yn y gymuned	64.5
Arall	18.7

Ystyrir yr effeithiau hyn yn fanwl isod (Table 17). Ychydig o bobl sy'n meddwl nad yw'r prosiect wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at eu cymuned (Datganiad A). Mae'r manteision wedi eu dosbarthu'n dda (B, C), ac o ran bodlonrwydd mae'r arian wedi ei wario yn dda (D). Mae'r rhain wedi hyrwyddo mwy o gydlynid yn y gymuned (M, N & O) ac wedi annog rhagor o ymarfer corff (L) a'r nifer sy'n datblygu eu haddysg/sgiliau (K). Mae'n ymddangos bod effaith bychan ar ysgogi busnes newydd (J), mae 2.8% o'r ymatebwyr yn honni eu bod wedi gwneud hynny.

**Tabl 16: Ymateb gan ddefnyddwyr i C16**

	Datganiad	Ymateb (fel % o'r defnyddwyr a ymatebodd i'r datganiad)				Heb ateb (fel % o'r holl ddefnyddwyr)
		Cytuno	Ddim y naill na'r llall	Anghytuno	Ddim yn berthnasol	
A	Gwnaeth y prosiect gyfraniad gwerthfawr i'n cymuned	96.7	2.6	0.0	0.7	7.8
B	Ychydig o bobl yn y gymuned sy'n cael budd o'r prosiect	8.0	14.3	73.2	4.5	32.5
C	Dylid bod wedi ymgynghori mwy â'r gymuned	3.2	16.0	70.4	10.4	24.7
D	Dylid bod wedi defnyddio'r arian ar brosiectau mwy manteisiol	0.0	9.7	86.7	3.5	31.9
E	Yn gyffredinol rwyf wedi fy mhlesio â'r prosiect	98.1	1.3	0.6	0.0	6.6
F	Yn gyffredinol rwyf yn siomedig â'r prosiect	0.0	3.7	91.7	4.6	34.9
G	Mae pwyntiau da a drwg ond yn gyffredinol mae'r rhai da yn gryfach na'r rhai drwg	61.2	17.8	4.7	16.3	22.3
H	Mae pwyntiau da a drwg ond yn gyffredinol mae'r rhai drwg yn gryfach na'r rhai da	0.0	12.3	67.0	20.8	36.1
I	Mae gennyf fusnes sy'n bodoli sydd wedi cael budd o'r prosiect	2.5	3.4	9.2	84.9	28.3
J	Rwyf wedi dechrau busnes newydd oherwydd y prosiect	2.8	0.9	12.8	83.5	34.3
K	Rwyf wedi dysgu sgiliau newydd/cymryd dosbarth nos oherwydd y prosiect	40.3	4.8	7.3	47.6	25.3
L	Rwyf yn gwneud mwy o ymarfer corff oherwydd y prosiect	38.2	9.1	9.1	43.6	33.7
M	Mae'r prosiect wedi helpu grŵp sy'n bodoli i gysylltu â grwpiau eraill yn y gymuned	63.1	16.9	1.5	18.5	21.7
N	Mae'r prosiect wedi helpu grŵp sy'n bodoli i gysylltu â grwpiau ethnig eraill yn y gymuned	17.9	25.9	11.6	44.6	32.5
O	Mae'r prosiect wedi helpu grŵp sy'n bodoli i gysylltu â grwpiau oedran eraill yn y gymuned.	57.8	18.0	3.9	20.3	22.9


Mae cyfran debyg o fusnesau sy'n bodoli yn ymddangos fel petaent wedi cael rhywfaint o fudd o'r prosiect (I). Mae cyfran fach ond arwyddocaol yn anghytuno â'r datganiad "Mae gennyf fusnes sy'n bodoli sy'n cael budd o'r prosiect"; nid yw'n glir

a oedd hyn yn arwydd o ddim effaith neu o effaith negyddol ond mae'n bwynt y dylid ymchwilio iddo.

Dangosir y canlyniadau yma yn ddaearyddol isod. Pan fydd 'cytuno' yn dynodi deilliant positif (Ffigwr 5) ac 'anghytuno' yn dangos rheoli anfanteision posibl (Ffigwr 6) mae'r canlyniadau'n ganmoliaethus iawn i'r rhaglen.


Mae'r allbynnau, yn unol ag amcanion y rhaglen, yn lleol. Er bod y dull hwn sy'n cael ei arwain gan y galw yn achosi peth anawsterau gweinyddol mae'n amlwg ei fod yn effeithiol, mae'r manteision yn sylweddol. Argymhellir y dylai'r dull sy'n cael ei arwain gan y galw hwn yn cael ei gefnogi a bod yr anawsterau gweinyddol yn cael eu cadw cyn lleied â phosibl trwy gyfeirio'r buddiolwyr posibl at raglenni meithrin gallu.

**Ffigwr 5: Ymateb i C16 a, e, g, k, m, n & o (cytuno yn well)**





**Ffigwr 6: Ymateb i C16 b, c, d & f (anghytuno yn well)**



## Atodiad 4: Rhesymeg a Gweithdrefn Dewis Prosiectau

---

Mae golwg fras ar yr ystod o brosiectau a gefnogir gan CFAP yn ddigon i awgrymu nad yw dewis prosiectau 'cynrychioliadol' yn beth hawdd. Darlunnir hyn trwy werth y dyfarniadau; os cyfrifir y gwerth cyfartalog mae bron yn ddiystyr oherwydd bod yr amrywiaeth mor fawr. Yn yr un modd mae dewis prosiectau ar sail nodweddion eraill (e.e. amodau swyddogaethol neu amcanion) yn codi'r un broblem o ddynodi beth sy'n cynrychioli'r ystod gyfan.

Ym maes dewis sampl mae ateb i gymhlethdod o'r fath a elwir yn ddylunio orthogonal; er mai hwn yw'r mwyaf trwyadl (gan ei fod yn profi pob cyfuniad posibl o newidynnau) mae'n anhylaw ac, o'i ddefnyddio i gyd, yn anaddas ar gyfer y gwerthusiad hwn; byddai'n dewis maint sampl mawr iawn (y prosiect i gyd efallai).

Ail ddewis, a'r un a ddewiswyd yn y gwerthusiad hwn oedd defnyddio dau neu dri o newidynnau perthnasol mewn dyluniad 'prif effeithiau' yn unig. Diffiniwyd y newidynnau perthnasol yn yr astudiaeth hon trwy rai materion oedd yn cael eu hystyried yn rhai o ddiddordeb, sef:

- Lleoliad; roeddem am weld a oedd y gefnogaeth wedi ei ganolbwyntio ar unrhyw ardaloedd gan y gallai roi rhyw arwydd o arfer gorau, angen a materion daearyddol eraill. Defnyddiwyd y pedwar rhanbarth economaidd, a phan oedd hynny'n bosibl, roedd y prosiectau yn yr ardaloedd ALI ymhob rhanbarth yn cael cynrychiolaeth gyfrannol debyg.
- Maint prosiectau; er bod hyn yn gysylltiedig â swm y gefnogaeth a ddyfarnwyd, fe oresgynnwyd y problemau gyda chymedr wedi ei gyfrifo trwy gategoreiddio prosiectau fel rhai micro, bach, canolig, mawr a mawr iawn ym mhob rhanbarth. Felly gellid archwilio rôl graddfa yn effeithiolrwydd yr arian a ddyrannwyd (h.y. am swm penodol a geir mwy o effaith trwy nifer o fân brosiectau neu gan lai o brosiectau mwy)
- Yn olaf roedd yr ymchwilyr yn ymwybodol bod peth newid yn y dull o brosesu ceisiadau wedi digwydd. Er mwyn casglu perthnasedd hyn i ymgeiswyr ac i gael barn yn ystod ac wedi'r prosiect, dewiswyd prosiectau oedd wedi eu cwblhau a'u cymeradwyo.

Defnyddiwyd y camau canlynol i ddewis:

- a) Cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer y pedwar rhanbarth economaidd. Hynny yw cyfrifwyd y gyfran o brosiectau CFAP ym mhob un o'r rhanbarthau economaidd a dyrannwyd cyfran gyfartal o'r sampl i'r rhanbarth hwnnw
- b) Gwahanwyd y prosiectau ym mhob rhanbarth yn 5 grŵp yn ôl maint y prosiect (1/5 yr un mewn micro, bach, canolig, mawr a mawr iawn)

- c) cyfrifwyd cymedr pob grŵp maint (o ystyried yr ystod lai ym mhob un gellir defnyddio'r cymedr yn awr)
- d) dewiswyd prosiectau i adlewyrchu cymedr y grŵp maint
- e) cyn belled ag sy'n bosibl dewiswyd parau o brosiectau (un wedi ei gwblhau ac un heb ei gwblhau)
- f) pan oedd y weithdrefn uchod yn dangos sawl prosiect posibl roedd y prosiectau'n cael eu dewis i gynrychioli amrywiaeth CFAP a/neu'r ardaloedd ALI yn y rhanbarth
- g) roedd y dewisiadau'n cael eu cadarnhau/mireinio ar y cyd a budd-ddeiliaid a swyddogion CFAP

Er enghraifft, roedd y gyfran briodol o CFAP yng Ngogledd Cymru yn dynodi 65 prosiect. Hynny yw 13 prosiect ym mhob un o'r pum dosbarth maint. Felly dewiswyd prosiect oedd ar y cyfartaledd maint neu'n agos ato a chwe phrosiect mwy a chwe phrosiect llai o fewn y dosbarth yn cynnwys tri phâr o brosiectau cyflawn/heb eu cwblhau.

Roedd y dull hwn yn goresgyn y broblem o ran cyfartaledd a grybwyllwyd uchod trwy ddefnyddio cyfartaledd mew is-samplau llai. Roedd y prosiectau a ddewiswyd o'r grwpiau o'r maint hwn yn cael eu cymharu â'r grŵp yr oeddynt wedi ei dynnu ohono i sicrhau eu bod yn debyg yn ystadegol. Mae hyn yn sicrhau bod y sampl yn gynrychioliadol o ran maint y prosiect heb y problemau a grybwyllwyd yn gynharach. Roedd yr elfen lleoliad yn y broses ddewis yn caniatáu i ni ddynodi amrywiadau rhanbarthol. Ymhellach, trwy roi mynediad at brosiectau ar wahanol gyfnodau yn eu datblygiad mae'n rhoi cip ar broses CFAP i ni.

Roedd cam olaf y weithdrefn ddewis yn ddiangen mewn rhai rhanbarthau/grwpiau maint; mewn ardaloedd lle nad oedd ond ychydig o brosiectau roedd raid defnyddio'r holl brosiectau i lenwi'r cwota. Pan nad oedd hyn yn digwydd, roedd y dewisiadau yn aml rhwng dau brosiect o faint tebyg yn yr ardal. Er enghraifft, os oedd dau brosiect yn grŵp prosiect mawr Gogledd Cymru yn agos at y cymedr yna byddid yn dewis y prosiect fyddai'n darlunio neu'n codi rhyw bwynt o ddiddordeb nad oedd eisoes wedi ei wneud. Os oedd y dewis rhwng adnewyddu canolfan gymunedol (prosiect digon cyffredin, y byddai enghreifftiau tebyg wedi eu dewis yn barod) a menter weithredu gymunedol flaengar, yna ar yr amod bod digon o enghreifftiau o'r prosiect cyffredin wedi eu dewis, byddid yn dewis y prosiect anghyffredin. Roedd y weithdrefn hon yn sicrhau bod amrywiaeth CFAP yn cael ei gynrychioli; y cyffredin a'r blaengar.

Gan fod y cam olaf hwn o'r broses ddewis ar sail barn defnyddiwyd dwy ffurf ar gadarnhau a mireinio; yn gyntaf yn y cyfweiliadau budd-ddeiliaid perthnasol roedd unrhyw brosiectau y tynnwyd sylw atynt gan y rhai a gyfwelwyd yn cael eu gwirio o'u cymharu â'r rhai a ddewiswyd ac, yn ail, trafodwyd y dewisiadau gyda swyddogion CFAP a'u cadarnhau.

Dewiswyd y prosiectau astudiaethau achos mewn modd tebyg, er y bwriadwyd i bob un ohonynt fod yn ddarluniadol o fater penodol; mewn

gwirionedd bwriadwyd i bob un fod yn nodweddiadol o'i gyfuniad o leoliad/maint/ problem yr ymdriniwyd â hi. I'r bwriad hwn, er enghraifft, dewiswyd cynllun grantiau bach mawr ei werth (uchafswm CFAP) a maes chwarae i blant fel astudiaethau achos yng Nghaerffili.

Yn y pen draw, llwyddodd y broses ddewis i gael cynrychiolaeth o'r amrywiaeth o gynlluniau trwy ddewis prosiectau yn ôl lleoliad, maint, cyfnod yn eu datblygiad a'r math o faterion yr oeddynt yn ymdrin â nhw.